# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 14EG MAI, 2015**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 6/05/15)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.gov.uk

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 14 MAI 2015**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 14EG MAI, 2015 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd am 2015/16.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 1 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**8. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**9. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan y Rheolau Gweithdrefn*.*

**10. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION** 21 - 24

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**11. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 25 - 28

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AR RAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YNG NGHYSWLLT CEFNOGAETH I AELODAU** 29 - 36

(a) Cyflwyno adroddiad y Cynghorydd Lesley Day - Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am 2014/15 (ynghlwm).

(b) Dewis Cadeirydd ar gyfer 2015/16.

**13. RHYBUDDION O GYNNIG** 37 - 42

(a) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan y Rheolau Gweithdrefn, bydd y Cynghorydd Sian Gwenllian yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Rwy'n galw ar y cyngor i ddatgan siom ynghylch penderfyniad Trinity Mirror, cyhoeddwyr papurau newydd, i gau swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon gan roi terfyn ar bresenoldeb yn y dref sy'n ymestyn dros 180 mlynedd, a dangos cefnogaeth lwyr i'r newyddiadurwyr a'r aelodau staff eraill sy'n cael eu heffeithio.**

**Dyma swyddfa ar gyfer y Daily Post, y Caernarfon and Denbigh Herald, yr Holyhead and Anglesey Mail, y Bangor and Anglesey Mail ac Yr Herald Gymraeg. Mae Caernarfon yn gartref traddodiadol i'r wasg ac yn ganolbwynt pwysig yn fwrdeistrefol, yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol. Ceir llys y goron, llys sirol a llys ynadon yn y dref; yn ogystal â chrwner gogledd orllewin Cymru a phencadlys Cyngor Gwynedd.**

**Galwaf hefyd ar y Cyngor i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau parhad presenoldeb staff Trinty Mirror mewn swyddfa yng Nghaernarfon. Mae gohebwyr yn gweithio yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, o stafell newyddion lleol, yn creu newyddiaduraeth dda - elfen hanfodol o ddemocratiaeth leol a ffynhonnell wybodaeth werthfawr i drigolion Gwynedd a thu hwnt. Pryderaf y byddai cau'r swyddfa bresennol yn cynrychioli lleihad pellach yn ymrwymiad Trinity Mirror i newyddiaduraeth leol yn y rhanbarth a'i fod yn arwain y ffordd at gau papurau newydd yr ydym yn eu gwerthfawrogi ac sydd wrth galon y gymuned."**

(b) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan y Trysorlys, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i gyfarfod Rhagfyr ynghylch osgoi talu treth (ynghlwm).

(c) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan Brif Weinidog Cymru

mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd R.H.Wyn Williams i'r cyfarfod diwethaf ynghylch Trident (ynghlwm).

(ch) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Craig ab Iago i'r cyfarfod diwethaf ynghylch ymgyrch Traws Linc Cymru i ailagor y rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru.

# Y CYNGOR, 5.03.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Anwen Davies, Lesley Day, Edward Dogan, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Sion Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Christopher O'Neal, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, E.Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Geraint Owen (Uwch Reolwr Adnoddau Dynol), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Gwen Griffith, Louise Hughes, Aeron Jones a Llywarch Bowen Jones.

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2014 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Cynghorwyd yr aelodau gan y Swyddog Monitro i ddatgan buddiant yn eitem 8 ar y rhaglen (Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2015/16) a gadael y siambr os oedd aelod agos iawn o'u teulu yn cael budd o un o'r cynigion penodol yn yr adroddiad.

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

Tynnwyd sylw hefyd gan y Swyddog Monitro at y ffaith bod yr eitem hon yn effeithio ar yr holl brif swyddogion oedd yn bresennol. Gan hynny, bwriedid ymdrin â'r mater mewn dau ran, sef:-

(1) Yr holl brif swyddogion, ac eithrio'r Prif Weithredwr, yn datgan buddiant ac yn gadael y siambr drwy gydol y drafodaeth;

(2) Y Prif Weithredwr yn mynd allan er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau godi unrhyw bwyntiau ynglŷn â chyflog y Prif Weithredwr, petai angen.

Datganodd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Strategol a Gwella a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro fuddiant personol yn yr eitem hon gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roeddent o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Strategol a Gwella a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro y cyfarfod yn ystod yr holl drafodaeth, a'r Prif Weithredwr yn ystod rhan o'r drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(1) Cydymdeimlad

Talwyd teyrnged gan y Cynghorydd Ioan Thomas i'r diweddar Gynghorydd Huw Edwards, cyn-gadeirydd y Cyngor, fu'n cynrychioli Ward Cadnant am flynyddoedd lawer, a chydymdeimlwyd â'i deulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

Teuluoedd:-
Mr Isgoed Williams, Trawsfynydd, cyn-aelod o Gyngor Sir Gwynedd;
John Rowlands, nofelydd a beirniad llenyddol;
Dr Meredydd Evans, ffigur amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru fel perfformiwr, arbenigwr ar ganu gwerin ac ymgyrchydd iaith;
Dr John Davies, yr hanesydd a darlledwr.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am eraill o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Mair Rowlands ar gyrraedd rhestr fer Cynghorydd Ifanc y Flwyddyn yr LGA.

(3) Nodyn

Nodwyd bod yna ychydig o docynnau ar ôl ar gyfer Cyngerdd Elusennol y Cadeirydd a gynhelid nos Sul, yr 8fed o Fawrth yn y Ganolfan, Porthmadog, gyda'r elw yn mynd at Dŷ Gobaith.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal dwy sesiwn briffio ac ymgysylltu ar y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn Venue Cymru, Llandudno, ar ddydd Llun, 16 Mawrth, gydag un sesiwn yn cychwyn am 10.00 o'r gloch y bore a'r llall am 2.00 o'r gloch y prynhawn.

**4. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau yn eu cyfarfodydd grwpiau ar fore'r Cyngor.)*

**Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Gan fod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar gynllun adnau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mynd rhagddo a fyddai'r deilydd portffolio perthnasol cystal â datgelu sut fydd unrhyw ymatebion ddaw i law yn yr ymgynghoriad yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun, a beth fydd tynged y Cynllun pan ddaw'r cyfnod ymgynghorol i ben a'r ymatebion wedi'u hymgorffori'n briodol?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio**

"'Mae'r cwestiwn yn un amserol ac 'rydych i gyd wedi gweld yr ateb. Mae'n bwysig iawn bod ni i gyd yn ymateb i'r cyfnod ymgynghori. Mae'n bwysig iawn bod pawb yn gwybod am y Cynllun Datblygu Lleol ac mae'n egluro beth yw'r cynllun tir ar gyfer y pymtheg mlynedd nesaf."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

"Gan mai mabwysiadu'r cynllun mae'r Aelod Cabinet presennol, ydi o yn wirioneddol yn credu bod Cynllun Adnau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ateb y diben ac yn addas i bwrpas yn y Wynedd sydd ohoni'r dwthwn hwn er mwyn hybu'r Gymraeg a'n cymunedau bregus?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio**

"Mae proses y cynllun Datblygu Lleol wedi cychwyn ers 2010. Mae'n broses drylwyr iawn. Mae yna lawer o ymgynghori wedi bod. Mae yna gyfnod ymgynghori wedi bod o'r blaen yn 2013 ac mae yna gyfnod ymgynghori rŵan a hoffwn bwysleisio pa mor bwysig ydyw ein bod ni i gyd yn ymateb i'r ymgynghori. Mae yna gyfleoedd wedi bod i ddinasyddion Gwynedd wneud hynny ac i gynghorau cymuned ac i unigolion ar draws y sir. Felly hoffwn bwysleisio pa mor bwysig ydyw i ni ymateb i'r ymgynghoriad. Mae i fyny i bobl Gwynedd roi eu barn yn y cyfnod ymgynghori yma a byddaf innau yn rhoi fy marn fel llawer i un arall a gobeithiaf y bydd pawb ohonom yn gwneud yr un fath."

## 5. DATGANIAD POLISI TÂL AR GYFER 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2015/16 yn unol ag Adran 38(i) Deddf Lleoliaeth 2011, oedd yn ymgorffori argymhelliad y Cabinet i gynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r pwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor fel cam pellach tuag at y 'Cyflog Byw'.

Gofynnwyd hefyd i'r Cyngor:-
(i) Ystyried argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion nad yw'n addas adolygu tâl gwirioneddol Prif Swyddogion yng nghyd-destun lefelau'r meincnodau ar hyn o bryd, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol mae'r Cyngor yn ei wynebu, ac effaith hynny ar staff, a bod yr ystyriaeth nesaf yn cael ei roi i ail-raddio tâl gwirioneddol i lefelau meincnod wrth adolygu Polisi Tâl 2016/17, ac yn flynyddol wedi hynny.
(ii) Gymeradwyo addasiad i Ddatganiad Polisi Tâl 2014/15 yn sgil y ffaith bod y codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion wedi'i ôl-ddyddio i'r 1af o Ionawr, 2015.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau neu ofyn cwestiynau ar bob agwedd o'r adroddiad, heblaw cyflog y Prif Weithredwr. Yn ystod y drafodaeth:-

(i) Croesawyd yr adroddiad a llongyfarchwyd y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet ar eu harweiniad wrth ail-strwythuro uwch reolaeth y Cyngor o fewn y cyd-destun heriol mae'r Cyngor yn ei wynebu.
(ii) Croesawyd yr awgrym i ddileu'r pwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor fel cam tuag at geisio cyflwyno'r 'Cyflog Byw' fel isafswm tâl a chau'r bwlch rhwng y rhai ar y brig a'r rhai ar yr haen isaf.
(iii) Holwyd faint o staff y Cyngor sydd ar gytundebau dim oriau a chytunodd y Prif Weithredwr i geisio darganfod y ffigur a'i anfon at yr aelod a gododd y cwestiwn.
(iv) Gofynnwyd am gyfarwyddyd ynglŷn â phwy i gysylltu â hwy yn dilyn yr ail-strwythuro a sicrhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r wybodaeth yn ymddangos yn Rhaeadr.

Gadawodd y Prif Weithredwr y siambr fel y gallai'r Cyngor godi unrhyw fater ynglŷn â chyflog y Prif Weithredwr. O ganlyniad, 'roedd yr holl brif swyddogion allan o'r siambr yn ystod y bleidlais ar y mater.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Adnoddau nad oedd yna unrhyw argymhelliad i newid cyflog y Prif Weithredwr, a bod hynny'n cyd-fynd â dymuniad y Prif Weithredwr ei hun.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Cynyddu tâl staff y Cyngor sy'n derbyn y cyflog isaf drwy ddileu'r pwynt cyflog isaf o strwythur tâl y Cyngor.**
**(b) Mabwysiadu'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2015/16 (Atodiad A i'r adroddiad).**
**(c) Bod yr ystyriaeth nesaf yn cael ei roi i ail-raddio tâl gwirioneddol i lefelau meincnod wrth adolygu Polisi Tâl 2016/17, ac yn flynyddol wedi hynny.**
**(ch) Cymeradwyo addasiad i Ddatganiad Polisi Tâl 2014/15 yn sgil y ffaith bod y codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion wedi'i ôl-ddyddio i'r 1af o Ionawr, 2015.**

## 6. CYLLIDEB 2015/16

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2015/16 ynghyd ag atodiad yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu'r gyllideb, ynghyd â'r materion hynny sydd yn dylanwadu ar sefydlu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Mynegwyd pryder bod torri £4.3m oddi ar y gyllideb ysgolion yn mynd i effeithio ar blant drwy arwain at newidiadau i'r cwricwlwm ac i strwythur ac ansawdd addysg y sir a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i leihau'r toriad o £4.3m i £3.4m, gan ddefnyddio £900,000 o'r balansau i ariannu hynny.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant.

Mewn ymateb i'r gwelliant:-
(i) Eglurodd yr Aelod Cabinet Adnoddau nad oedd bwriad i dorri £4.3m o'r gyllideb ysgolion yn 2015/16 a bod y targed arbedion i'w gyflawni dros y tair blynedd nesaf. £952,000 fyddai'r arbediad ysgolion yn 2015/16 ac 'roedd y Fforwm Cyllido Ysgolion wedi cytuno i hynny.
(ii) Rhybuddiodd y Prif Weithredwr rhag defnyddio rhagor o falansau oherwydd, i'r dyfodol, byddai angen y balansau hynny i brynu amser pellach i bontio'r cyfnod pan fydd y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros ben. Nododd hefyd y byddai peidio lleihau'r gyllideb addysg gymaint ag sydd yn y strategaeth bresennol yn golygu torri mwy ar gyllidebau gwasanaethau eraill, ac ni ellid gwneud hynny heb wybod beth fyddai'r goblygiadau i'r gwasanaethau hynny. Ychwanegodd y gellid ail-

ymweld â’r strategaeth ynglŷn ag addysg yr adeg yma'r flwyddyn nesaf pan fydd y dewisiadau a goblygiadau’r dewisiadau hynny yn hysbys.

(iii) Eglurodd y Pennaeth Addysg y byddai’r toriad o £952,000 yn arwain at beth cynnydd yn y gymhareb athro-disgybl yn y cynradd a’r uwchradd. Eglurodd nad oedd yna dystiolaeth bod yna gyswllt uniongyrchol rhwng safonau addysg ac arian. Y prif elfennau oedd ansawdd yr arweinyddiaeth ac addysgu yn yr ysgolion.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i leihau’r toriad yn y gyllideb ysgolion yn 2015/16 o £952,000 i £600,000, gan ddefnyddio £300,000 o’r balansau i ariannu hynny.

Gan fod un gwelliant wedi’i roi a’i eilio’n barod ar y mater hwn, cafwyd caniatâd y cyfarfod a’r eilydd i dynnu’r gwelliant hwnnw yn ei ôl a chymerodd y gwelliant newydd le’r gwelliant gwreiddiol.

Mewn ymateb i’r gwelliant, pwysleisiodd y Prif Weithredwr nad oedd defnyddio balansau yn ateb parhaus ac y byddai’r gwelliant yn golygu trosglwyddo’r goblygiadau parhaol i wasanaethau eraill heb wybod beth yw goblygiadau hynny. Tynnodd sylw hefyd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi (paragraff 8.7 o’r adroddiad) na fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn a bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau cynaliadwy.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

(i) Bod angen pwyllo rhag sefydlu cyllideb ar hap.
(ii) Y byddai peidio gwneud yr arbediad ysgolion yn taro gwasanaethau eraill, megis plant ac oedolion bregus, yn llawer trymach.
(iii) Bod y gyllideb a’r dyraniad ar gyfer ysgolion yn cwrdd â gofynion y Gweinidog a Llywodraeth Cymru, drwy sicrhau bod yna ychwanegiad i’r gyllideb ysgolion.
(iv) Bod Gwynedd wedi gwarchod y gyllideb ysgolion ar hyd y blynyddoedd, ac o fabwysiadu’r gyllideb arfaethedig, byddai’r Cyngor hwn yn parhau ymysg y mwyaf hael o ran ariannu addysg yng Nghymru.
(v) Y byddai defnyddio rhagor o falansau yn rhoi’r Cyngor mewn sefyllfa anodd iawn i’r dyfodol.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg y cafwyd cytundeb yn y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion, sy’n cynnwys prifathrawon uwchradd a chynradd, llywodraethwyr a swyddogion, i’r arbediad o £952,000 yn 2015/16 ynghyd â chytundeb i barhau i edrych sut y gellir cyrraedd y £4.3m dros dair blynedd gyda’r effaith leiaf ar addysg disgyblion.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y gwelliant.

Yn unol â’r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant:-

**O blaid: (3)** Y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Brian Jones a Sion Jones.

**Atal: (0)**

**Yn erbyn: (65)** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Annwen Daniels, Anwen Davies, Lesley Day, Edward Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Aled Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Annwen Hughes, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Peredur Jenkins, Anne Lloyd Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn

Morgan, Linda Morgan, Christopher O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, W.Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, E.Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John Wyn Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

Yn ystod y drafodaeth ar weddill yr adroddiad, nodwyd:-

(i) Yn anffodus, bod toriadau'r Llywodraeth Ganolog a'r lleihad yn y grant gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad oedd gan y Cyngor hwn ddewis ond derbyn y gyllideb.
(ii) Bod Gwynedd yn ardal dlawd ac y dylid ymgyrchu am well setliad i lywodraeth leol yng Nghymru.
(iii) Bod y Dreth Cyngor yng Ngwynedd wedi cynyddu 30% ers 2008 ac nad oedd neb o'r trigolion wedi derbyn codiad yn eu cyflog sy'n cyfateb i hynny.
(iv) Bod yna lawer o waith manwl wedi mynd i mewn i sefydlu'r gyllideb a'i bod yn bwysig bod yr holl aelodau yn dangos eu cefnogaeth i'r Aelod Cabinet.

Cynigiwyd ac eiliwyd i fabwysiadu'r gyllideb arfaethedig, a olygai gynnydd o 4.5% yn y Dreth Cyngor.

Nodwyd bod rhaid ystyried y teuluoedd sy'n cael eu gwasgu o ddifri' a chynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%.

Mewn ymateb i'r gwelliant, nododd y Prif Weithredwr y byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 3.5% yn golygu defnyddio £500,000 yn ychwanegol o falansau ac yn ychwanegu £500,000 o doriadau at yr £15m a wynebir ar hyn o bryd, gan effeithio ar yr union bobl sy'n ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

(i) Ei bod yn anodd iawn ar y bobl hynny sydd ar gyflog isel, ond ddim yn gymwys i dderbyn cymorth tuag at dalu'r dreth.
(ii) Bod pobl yn gweld eu hunain yn gorfod talu mwy o Dreth Cyngor, ond eto'n derbyn llai o wasanaethau.
(iii) Bod lefel chwyddiant tua 1% yn unig ar hyn o bryd.
(iv) Nad yw Llywodraeth Cymru yn deall y gost uwch o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a chytunwyd i gyfeirio'r mater i'r Grŵp Busnes nesaf fel y gall arweinyddion y grwpiau weithio ar y cyd i gyflwyno'r achos i'r Llywodraeth.
(v) At ei gilydd, bod y Dreth Cyngor yn cyfarch pobl yn ôl eu sefyllfa ariannol ac felly bod y gyllideb arfaethedig a lefel y dreth yn taro'r cydbwysedd cywir ac yn cynorthwyo'r Cyngor i warchod gwasanaethau hanfodol ar gyfer pobl sy'n ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.
(vi) Na ellid cyfiawnhau lleihau'r codiad yn y Dreth Cyngor 1% er mwyn cynorthwyo pobl sy'n abl i dalu ar draul pobl dlawd sy'n ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor.
(vii) Bod yna le i wthio am arbedion ychwanegol.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD**
**(1) Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £228,193,060 ar gyfer 2015/16 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £168,311,990 a chynnydd yn y Dreth Cyngor o 4.5% fyddai'n golygu incwm Treth Cyngor o £57,862,480 gyda'r bwlch sy'n weddill i'w gyllido drwy ddefnyddio £2,018,590 o falansau'r Cyngor.**

**(b) Hefyd, sefydlu rhaglen gyfalaf o £19.179m yn 2015/16 a £21.270m yn 2016/17 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r atodiad i'r adroddiad.**

**(c) Nodi parhad y strategaeth tymor canolig i ymgynghori am y cynigion i ddygymod gyda'r bwlch ariannol sy'n ein hwynebu am y tair blynedd nesaf.**

**(2) Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 12 Tachwedd 2014, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2015/16 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-**

**(a) 49,835.48 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 525.98 | Llanddeiniolen | 1,794.90 |
| Aberdyfi | 931.68 | Llandderfel | 486.08 |
| Abergwyngregyn | 116.15 | Llanegryn | 144.81 |
| Abermaw | 1,093.59 | Llanelltyd | 282.93 |
| Arthog | 614.79 | Llanengan | 1,960.68 |
| Y Bala | 756.08 | Llanfair | 311.38 |
| Bangor | 3,608.02 | Llanfihangel y Pennant | 204.98 |
| Beddgelert | 320.68 | Llanfrothen | 214.50 |
| Betws Garmon | 134.48 | Llangelynnin | 397.91 |
| Bethesda | 1,634.46 | Llangywer | 130.25 |
| Bontnewydd | 430.35 | Llanllechid | 334.79 |
| Botwnnog | 432.68 | Llanllyfni | 1,371.38 |
| Brithdir a Llanfachreth | 398.56 | Llannor | 891.02 |
| Bryncrug | 334.92 | Llanrug | 1,115.40 |
| Buan | 223.33 | Llanuwchllyn | 304.11 |
| Caernarfon | 3,445.11 | Llanwnda | 750.93 |
| Clynnog Fawr | 429.51 | Llanycil | 192.33 |
| Corris | 294.79 | Llanystumdwy | 847.24 |
| Criccieth | 915.96 | Maentwrog | 272.13 |
| Dolbenmaen | 583.37 | Mawddwy | 334.83 |
| Dolgellau | 1,185.48 | Nefyn | 1,378.94 |
| Dyffryn Ardudwy | 800.89 | Pennal | 211.52 |
| Y Felinheli | 1,086.37 | Penrhyndeudraeth | 751.97 |
| Ffestiniog | 1,674.54 | Pentir | 971.32 |
| Y Ganllwyd | 84.72 | Pistyll | 241.12 |
| Harlech | 730.80 | Porthmadog | 1,954.94 |
| Llanaelhaearn | 427.98 | Pwllheli | 1,694.74 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llanbedr** | **303.81** | **Talsarnau** | **308.46** |
| **Llanbedrog** | **685.55** | **Trawsfynydd** | **492.27** |
| **Llanberis** | **763.90** | **Tudweiliog** | **445.56** |
| **Llandwrog** | **998.48** | **Tywyn** | **1,544.18** |
| **Llandygai** | **962.41** | **Waunfawr** | **568.46** |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(3) Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2015/16 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

**(a) £342,268,670** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).**

**(b) £114,676,350** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).**

**(c) £227,592,320** **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).**

**(ch) £168,052,539** **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

**(d) £1,194.73** **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth gyfartalog cynghorau cymuned).**

**(dd) £1,677,300** **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).**

**(e) £1,161.07** **Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,176.28** | **Llanddeiniolen** | **1,168.31** |
| **Aberdyfi** | **1,186.12** | **Llandderfel** | **1,175.27** |
| **Abergwyngregyn** | **1,178.29** | **Llanegryn** | **1,188.69** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **1,199.26** | **Llanelltyd** | **1,184.04** |
| **Arthog** | **1,174.90** | **Llanengan** | **1,184.02** |
| **Y Bala** | **1,182.89** | **Llanfair** | **1,183.55** |
| **Bangor** | **1,249.47** | **Llanfihangel y Pennant** | **1,184.27** |
| **Beddgelert** | **1,185.99** | **Llanfrothen** | **1,182.52** |
| **Betws Garmon** | **1,170.74** | **Llangelynnin** | **1,176.15** |
| **Bethesda** | **1,193.80** | **Llangywer** | **1,191.78** |
| **Bontnewydd** | **1,194.76** | **Llanllechid** | **1,178.99** |
| **Botwnnog** | **1,171.47** | **Llanllyfni** | **1,189.10** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **1,176.12** | **Llannor** | **1,176.96** |
| **Bryncrug** | **1,182.00** | **Llanrug** | **1,182.59** |
| **Buan** | **1,177.86** | **Llanuwchllyn** | **1,190.01** |
| **Caernarfon** | **1,217.01** | **Llanwnda** | **1,185.31** |
| **Clynnog Fawr** | **1,179.70** | **Llanycil** | **1,178.23** |
| **Corris** | **1,180.65** | **Llanystumdwy** | **1,178.77** |
| **Criccieth** | **1,198.19** | **Maentwrog** | **1,181.28** |
| **Dolbenmaen** | **1,178.21** | **Mawddwy** | **1,176.75** |
| **Dolgellau** | **1,202.40** | **Nefyn** | **1,196.74** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **1,186.04** | **Pennal** | **1,189.44** |
| **Y Felinheli** | **1,188.68** | **Penrhyndeudraeth** | **1,206.28** |
| **Ffestiniog** | **1,217.80** | **Pentir** | **1,190.81** |
| **Y Ganllwyd** | **1,196.48** | **Pistyll** | **1,179.73** |
| **Harlech** | **1,182.96** | **Porthmadog** | **1,188.18** |
| **Llanaelhaearn** | **1,196.12** | **Pwllheli** | **1,202.08** |
| **Llanbedr** | **1,193.99** | **Talsarnau** | **1,193.49** |
| **Llanbedrog** | **1,184.41** | **Trawsfynydd** | **1,185.45** |
| **Llanberis** | **1,185.94** | **Tudweiliog** | **1,174.09** |
| **Llandwrog** | **1,197.12** | **Tywyn** | **1,196.69** |
| **Llandygai** | **1,181.81** | **Waunfawr** | **1,182.18** |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

(ff) **Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**(4)** **Nodi ar gyfer y flwyddyn 2015/16 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **156.96** | **183.12** | **209.28** | **235.44** | **287.76** | **340.08** | **392.40** | **470.88** | **549.36** |

**(5) Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn <u>Atodiad 2</u> ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2015/2016 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2015/16**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaethau arfaethedig.

Cadarnhaodd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y pwyllgor hwnnw wedi trafod y strategaethau mewn seminar ac mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol, ac yn cefnogi'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiadau A, B a C i'r adroddiad), Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2015/16 (Atodiad CH), Y Dangosyddion Darbodus (Atodiad D), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad DD) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**8. Y CYFANSODDIAD**

**8(a) NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DDEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A'R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2015**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Pennaeth Cyllid:-

(1) adroddiad yn argymell i'r Cyngor adolygu'r adrannau o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel yr Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015 ynglŷn â sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

(2) adroddiad atodedig i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Chwefror yn sefydlu'r cefndir a'r manylion.

Cadarnhaodd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod y pwyllgor hwnnw yn cyd-fynd â'r argymhellion.

Diolchwyd i'r swyddogion a'r aelodau fu ynghlwm â'r Gronfa Bensiwn a mynegwyd parodrwydd y Pwyllgor Pensiynau i gydweithio gyda'r Bwrdd newydd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Addasu'r adrannau o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cynllun Pensiwn Lleol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf**

**Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015.**

**(b) Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu gyda hawl dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, i wneud mân addasiadau i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Pensiynau Lleol pe cyfyd yr angen.**

## 8(b) DIWYGIADAU CYFANSODDIAD

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad, er gwybodaeth, ar addasiadau i'r Cyfansoddiad:-

(1) yn sgil ail-drefnu Portffolios yr Aelodau Cabinet ym mis Ionawr, ac
(2) er sicrhau eglurder ynglŷn â chyfnodau rhybudd.

Yn ystod y drafodaeth:-

(i) Croesawyd y ffaith bod yna ferched wedi'u penodi i'r Cabinet a nododd yr Arweinydd ei fod wedi ceisio cael mwy o bobl ifanc arno hefyd, fel bod yr aelodaeth yn adlewyrchiad gwell o boblogaeth y sir.
(ii) Mynegwyd anfodlonrwydd mai un blaid yn unig a gynrychiolir ar y Cabinet a bod hynny'n gwbl annemocrataidd gan nad oes gan y blaid honno fwyafrif ar y Cyngor. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd ei fod yn agored ei feddwl o ran pa aelodau ddylai fod ar y Cabinet ac y byddai'n annog unrhyw aelod sy'n teimlo bod ganddo gyfraniad i'w wneud i gysylltu ag ef. Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod y drefn Arweinydd a Chabinet a weithredir yng Ngwynedd yn golygu mai mater i'r Arweinydd yw penodi Cabinet a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. STRATEGAETH IAITH HUNANIAITH

Derbyniwyd cyflwyniad ar Strategaeth Iaith Hunaniaith. Gosodwyd y cyd-destun gan yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg a rhoddodd y Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg gyflwyniad ystadegol ar sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd gan fanylu ar rôl a phwrpas Hunaniaith a meysydd blaenoriaeth y strategaeth.

Ymatebwyd i gyfres o gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

(i) Dichonoldeb y nod o sicrhau cynnydd o 5% yng nghanran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd erbyn 2021.
(ii) Pwysigrwydd cryfhau'r economi er mwyn cryfhau'r iaith.
(iii) Arafwch i gyrraedd y safonau priodol sy'n ddisgwyliedig gan gyrff preifat a chyhoeddus a'r angen i Gyngor Gwynedd a'r Pwyllgor Iaith a phwyllgorau eraill sy'n berthnasol i safon yr iaith a chynnydd siaradwyr Cymraeg ar draws Gwynedd berswadio Llywodraeth Cymru, ac yn gyffredinol, fel bod y safonau yn cael eu cyrraedd yn fuan.
(v) Pwysigrwydd bod yn uchelgeisiol a gosod heriau o ran y Gymraeg.
(vi) O ran mesur effaith, y syniad o edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill ac mewn gwledydd eraill, ac o bosib' gweithio gyda phrifysgolion.
(vii) Pwysigrwydd sicrhau bod plant yn sefydlu'r arferiad o ddefnyddio technoleg gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg o oedran cynnar iawn.
(viii) Yr angen i gadw meddyliau agored ynglŷn â'r polisïau sy'n medru hybu a chynnal y Gymraeg, e.e. dylanwad posib' y maes tai.

(ix) Nad un polisi sy'n effeithio ar y Gymraeg, ond bob polisi ar draws y Cyngor a gweddill y sector gyhoeddus yn y sir, ac os am warchod a sicrhau twf yr iaith, bod rhaid i weddill y sector wneud eu cyfraniad hwythau hefyd.
(x) Pwysigrwydd trafod anghenion tai'r sir i'r dyfodol er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o dai yn cael eu hadeiladu.
(xi) Pwysigrwydd defnydd plant o'r Gymraeg a phryder ynglŷn ag amharodrwydd rhai rhieni i basio'r Gymraeg ymlaen i'r genhedlaeth nesaf.
(xii) Cynlluniau ôl 16.
(xiii) Y syniad o greu Pencampwr Iaith ymhob cymuned drwy Gymru.
(xiv) Y cyfrifoldeb ar aelodau i wneud defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd drwy barhau i siarad yn Gymraeg yn hytrach na throi i'r Saesneg.

Nododd yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg:-
(i) Bod cyfrifoldeb ar yr aelodau fel llywodraethwyr i gadw llygaid ar weithrediad y Strategaeth Iaith yn eu hysgolion.
(ii) Ei fod yn siomedig nad yw pobl ifanc yn gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol, teledu a radio drwy gyfrwng y Gymraeg.
(ii) Yr hoffai ddiolch i Sharon Warnes fu'n gyfrifol am wneud llawer o'r gwaith cefndir i sicrhau bod y Strategaeth Iaith wedi gweld golau dydd.

Nodwyd bod Gwynedd yn arloesi o ran y Gymraeg a diolchwyd i'r Aelod Cabinet, y Swyddog Hyrwyddo'r Iaith a Thîm Hunaniaith am eu holl waith ar y gwahanol gynlluniau, yn arbennig y gwaith gyda'r ysgolion ar y Siarter Iaith ac am drefnu nifer o ddigwyddiadau lleol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

**10. CALENDR PWYLLGORAU 2015/16**

Cyflwynodd yr Arweinydd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2015/16.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2015/16.**

**11. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| **Cymunedau** | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwasanaethau** | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| **Archwilio** | 9 | 5 | 3 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Democratiaeth** | **7** | **4** | **3** | **1** | | | |
| **Iaith** | **8** | **4** | **3** | | | | |
| **Cynllunio** | **7** | **3** | **3** | **1** | **1** | | |
| **Trwyddedu Canolog** | **7** | **4** | **3** | | | **1** | |
| **Apelau Cyflogaeth** | **3** | **1** | **1** | **1** | | **1** | |
| **Penodi Prif Swyddogion** | **7** | **4** | **2** | **1** | **1** | | |
| **Nifer y seddau** | **74** | **37** | **27** | **8** | **4** | **4** | **154** |

| | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** | **Llafur** | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Aelod Unigol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau** | **3** | **2** | **1** | | **1** | | |
| **Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol** | **6** | **2** | **2** | **1** | | | |
| **Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig** | **3** | **2** | **1** | | | **1** | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** | **4 (3 sedd ac un eilydd)** | **2** | **1** | **1** | | | |
| **CYSAG** | **3** | **2** | **2** | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **93** | **47** | **34** | **10** | **5** | **5** | **194** |

**12. PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor ystyried a phenderfynu ar argymhelliad y Panel Ymgynghorol i benodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn sgil y ffaith bod ail dymor swydd dau o'r aelodau annibynnol presennol wedi dod i ben ym mis Chwefror eleni.

Nododd y Swyddog Monitro fod y Panel Ymgynghorol wedi cyfweld saith ymgeisydd yn dilyn proses fanwl a statudol a'u bod yn argymell i'r Cyngor benodi Jacqueline Hughes o Nantlle, sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth Iechyd fel Radiolegydd, ond gyda chefndir Undeb Llafur, a David Wareing o'r Groeslon, sy'n heddwas wedi ymddeol, yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

Yn ystod y drafodaeth:-

(i) Awgrymwyd y dylid ysgrifennu at y ddau aelod annibynnol sydd wedi ymddeol o'r Pwyllgor Safonau yn diolch iddynt am eu blynyddoedd o wasanaeth.
(ii) Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Swyddog Monitro nad oedd yr un o'r ddau ymgeisydd yr argymhellid eu penodi ar y Pwyllgor Safonau yn gallu siarad Cymraeg

ac mai un yn unig o'r saith ymgeisydd a gafodd eu cyfweld oedd yn siaradwr Cymraeg. Eglurodd fod yna feini prawf y mae'n rhaid i'r panel eu hystyried wrth benodi i'r Pwyllgor Safonau, ac er y cafwyd trafodaeth fanwl ar falans sgiliau, efallai bod yna waith i'w wneud erbyn y tro nesaf i annog ystod ehangach o ymgeiswyr.

**PENDERFYNWYD penodi Jacqueline Hughes a David Wareing yn aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.**

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Craig ag Iago, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, ac fe'i eiliwyd.

**"Galwaf ar Gyngor Sir Gwynedd i gefnogi ymgyrch Traws Linc Cymru i ailagor y rheilffordd rhwng Gogledd a De Cymru. Byddai ail-agor y lein yn golygu cryn dipyn o fuddsoddiad ynghyd â'r angen i weithio ar y cyd â phob lefel o Lywodraeth. Byddai'r prosiect hwn yn dod â buddsoddiad i Wynedd a fyddai o fudd mawr i'r economi leol ac i ragolygon economaidd Cymru. Byddai'n sicrhau dewis o drafnidiaeth gynaliadwy i gyflogaeth a thwristiaid. Cynigiaf fod Cyngor Gwynedd yn cefnogi astudiaeth ddichonoldeb broffesiynol ac yn cytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Edwina Hart a'r Prif Weinidog Carwyn Jones i nodi barn y Cyngor."**

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd R.H.Wyn Williams, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, ac fe'i eiliwyd.

**"'Rwyf yn galw ar y Cyngor hwn a chynghorau sir eraill trwy Gymru, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, i gefnogi galwad i Lywodraeth San Steffan sgrapio'r prosiect Trident er mwyn sicrhau cymdeithas fwy teg trwy flaenoriaethu gwariant ar atal tlodi, gofal, addysg, iechyd a'r economi."**

Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd y dylid ysgrifennu at bob cyngor yng Nghymru yn galw arnynt hwythau i gefnogi'r alwad i Lywodraeth San Steffan sgrapio'r prosiect Trident.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ychwanegu at y cynnig bod y Cyngor hwn yn ail-gadarnhau ei safiad gwrth-niwclear ac yn tanlinellu'r cynnig hwn drwy ail-danysgrifio ag Awdurdodau Lleol Di-Niwclear a thrwy hynny'n ychwanegu pwysau ar lefel genedlaethol i'r ymgyrch i gael gwared ag arfau niwclear, a bod y gwariant yn dod o'r gyllideb democratiaeth.

Mewn ymateb i'r gwelliant, nodwyd:-

(i) Bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad yn flaenorol i beidio tanysgrifio â'r gymdeithas hon fel rhan o'r strategaeth arbedion a bod peryg' yma o gymhlethu'r mater.

(ii) Ei bod yn rhydd i unrhyw aelod ymaelodi â'r gymdeithas fel unigolyn.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe ddisgynnodd.

Nodwyd y farn bod arfau niwclear wedi cadw heddwch yn Ewrop ers diwedd yr Ail Ryfel Byd a bod rhaid eu cael er mwyn bod yn aelod o NATO.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ychwanegu at y cynnig bod y Cyngor hwn yn ysgrifennu at bob cyngor sir yng Nghymru yn galw arnynt hwythau i gefnogi'r alwad i Lywodraeth San Steffan sgrapio'r prosiect Trident.

Yn ystod y drafodaeth ar y gwelliant, nodwyd:-

(i) Bod arfau niwclear yn anfoesol ac y cefnogid y cynnig 100%.

(ii) Bod y cynnig hwn ymysg y pwysicaf y bydd y Cyngor hwn yn ei drafod am nifer o resymau a bod arfau niwclear yn fygythiad i'r math o fyd y ceisir ei greu, sef byd lle mae yna gydweithrediad rhyngwladol a byd lle mae yna gydweithio ar draws ffiniau gwledydd a chymorth yn cael ei estyn o wledydd cyfoethog i'r gwledydd tlawd.

(iii) Nad yw arfau niwclear wedi atal yr un o'r 250 o ryfeloedd sydd wedi bod ers yr Ail Ryfel Byd.

Cefnogodd cynigydd y cynnig gwreiddiol y gwelliant, gan ail-adrodd y cynnig fel y'i diwygiwyd, sef:-

**“'Rwyf yn galw ar y Cyngor hwn i gefnogi galwad i Lywodraeth San Steffan sgrapio'r prosiect Trident er mwyn sicrhau cymdeithas fwy teg trwy flaenoriaethu gwariant ar atal tlodi, gofal, addysg, iechyd a'r economi. Dylid hefyd ysgrifennu at bob cyngor sir trwy Gymru, yn galw arnynt hwythau, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r alwad yn yr un modd.”**

Nododd ymhellach fod 150 o wledydd wedi gwneud i ffwrdd ag unrhyw wariant ar arfau niwclear a mynegodd ei obaith fod hadyn wedi'i blannu yn y cyfarfod hwn ac y bydd yn tyfu trwy Gymru ac yn mynd yn ei flaen i Lundain.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig, fel y'i diwygiwyd.**

(C) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Derek Vaughan, ASE, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elin Walker Jones i'r cyfarfod diwethaf ynghylch y Bartneriaeth Fasnach a Buddsoddiad Trawsiwerydd (TTIP).

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 5.05pm

## Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned
## Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 784.19 | 914.88 | 1,045.58 | 1,176.28 | 1,437.68 | 1,699.07 | 1,960.47 | 2,352.56 | 2,744.65 |
| Aberdyfi | 790.75 | 922.54 | 1,054.33 | 1,186.12 | 1,449.70 | 1,713.28 | 1,976.87 | 2,372.24 | 2,767.61 |
| Abergwyngregyn | 785.53 | 916.45 | 1,047.37 | 1,178.29 | 1,440.13 | 1,701.97 | 1,963.82 | 2,356.58 | 2,749.34 |
| Abermaw | 799.51 | 932.76 | 1,066.01 | 1,199.26 | 1,465.76 | 1,732.26 | 1,998.77 | 2,398.52 | 2,798.27 |
| Arthog | 783.27 | 913.81 | 1,044.36 | 1,174.90 | 1,435.99 | 1,697.08 | 1,958.17 | 2,349.80 | 2,741.43 |
| Bala | 788.59 | 920.03 | 1,051.46 | 1,182.89 | 1,445.75 | 1,708.62 | 1,971.48 | 2,365.78 | 2,760.08 |
| Bangor | 832.98 | 971.81 | 1,110.64 | 1,249.47 | 1,527.13 | 1,804.79 | 2,082.45 | 2,498.94 | 2,915.43 |
| Beddgelert | 790.66 | 922.44 | 1,054.21 | 1,185.99 | 1,449.54 | 1,713.10 | 1,976.65 | 2,371.98 | 2,767.31 |
| Betws Garmon | 780.49 | 910.58 | 1,040.66 | 1,170.74 | 1,430.90 | 1,691.07 | 1,951.23 | 2,341.48 | 2,731.73 |
| Bethesda | 795.87 | 928.51 | 1,061.16 | 1,193.80 | 1,459.09 | 1,724.38 | 1,989.67 | 2,387.60 | 2,785.53 |
| Bontnewydd | 796.51 | 929.26 | 1,062.01 | 1,194.76 | 1,460.26 | 1,725.76 | 1,991.27 | 2,389.52 | 2,787.77 |
| Botwnnog | 780.98 | 911.14 | 1,041.31 | 1,171.47 | 1,431.80 | 1,692.12 | 1,952.45 | 2,342.94 | 2,733.43 |
| Brithdir a Llanfachreth | 784.08 | 914.76 | 1,045.44 | 1,176.12 | 1,437.48 | 1,698.84 | 1,960.20 | 2,352.24 | 2,744.28 |
| Bryncrug | 788.00 | 919.33 | 1,050.67 | 1,182.00 | 1,444.67 | 1,707.33 | 1,970.00 | 2,364.00 | 2,758.00 |
| Buan | 785.24 | 916.11 | 1,046.99 | 1,177.86 | 1,439.61 | 1,701.35 | 1,963.10 | 2,355.72 | 2,748.34 |
| Caernarfon | 811.34 | 946.56 | 1,081.79 | 1,217.01 | 1,487.46 | 1,757.90 | 2,028.35 | 2,434.02 | 2,839.69 |
| Clynnog Fawr | 786.47 | 917.54 | 1,048.62 | 1,179.70 | 1,441.86 | 1,704.01 | 1,966.17 | 2,359.40 | 2,752.63 |
| Corris | 787.10 | 918.28 | 1,049.47 | 1,180.65 | 1,443.02 | 1,705.38 | 1,967.75 | 2,361.30 | 2,754.85 |
| Criccieth | 798.79 | 931.93 | 1,065.06 | 1,198.19 | 1,464.45 | 1,730.72 | 1,996.98 | 2,396.38 | 2,795.78 |
| Dolbenmaen | 785.47 | 916.39 | 1,047.30 | 1,178.21 | 1,440.03 | 1,701.86 | 1,963.68 | 2,356.42 | 2,749.16 |
| Dolgellau | 801.60 | 935.20 | 1,068.80 | 1,202.40 | 1,469.60 | 1,736.80 | 2,004.00 | 2,404.80 | 2,805.60 |
| Dyffryn Ardudwy | 790.69 | 922.48 | 1,054.26 | 1,186.04 | 1,449.60 | 1,713.17 | 1,976.73 | 2,372.08 | 2,767.43 |
| Y Felinheli | 792.45 | 924.53 | 1,056.60 | 1,188.68 | 1,452.83 | 1,716.98 | 1,981.13 | 2,377.36 | 2,773.59 |
| Ffestiniog | 811.87 | 947.18 | 1,082.49 | 1,217.80 | 1,488.42 | 1,759.04 | 2,029.67 | 2,435.60 | 2,841.53 |
| Y Ganllwyd | 797.65 | 930.60 | 1,063.54 | 1,196.48 | 1,462.36 | 1,728.25 | 1,994.13 | 2,392.96 | 2,791.79 |
| Harlech | 788.64 | 920.08 | 1,051.52 | 1,182.96 | 1,445.84 | 1,708.72 | 1,971.60 | 2,365.92 | 2,760.24 |
| Llanaelhaearn | 797.41 | 930.32 | 1,063.22 | 1,196.12 | 1,461.92 | 1,727.73 | 1,993.53 | 2,392.24 | 2,790.95 |
| Llanbedr | 795.99 | 928.66 | 1,061.32 | 1,193.99 | 1,459.32 | 1,724.65 | 1,989.98 | 2,387.98 | 2,785.98 |
| Llanbedrog | 789.61 | 921.21 | 1,052.81 | 1,184.41 | 1,447.61 | 1,710.81 | 1,974.02 | 2,368.82 | 2,763.62 |
| Llanberis | 790.63 | 922.40 | 1,054.17 | 1,185.94 | 1,449.48 | 1,713.02 | 1,976.57 | 2,371.88 | 2,767.19 |
| Llandwrog | 798.08 | 931.09 | 1,064.11 | 1,197.12 | 1,463.15 | 1,729.17 | 1,995.20 | 2,394.24 | 2,793.28 |
| Llandygai | 787.87 | 919.19 | 1,050.50 | 1,181.81 | 1,444.43 | 1,707.06 | 1,969.68 | 2,363.62 | 2,757.56 |
| Llanddeiniolen | 778.87 | 908.69 | 1,038.50 | 1,168.31 | 1,427.93 | 1,687.56 | 1,947.18 | 2,336.62 | 2,726.06 |
| Llandderfel | 783.51 | 914.10 | 1,044.68 | 1,175.27 | 1,436.44 | 1,697.61 | 1,958.78 | 2,350.54 | 2,742.30 |
| Llanegryn | 792.46 | 924.54 | 1,056.61 | 1,188.69 | 1,452.84 | 1,717.00 | 1,981.15 | 2,377.38 | 2,773.61 |
| Llanelltyd | 789.36 | 920.92 | 1,052.48 | 1,184.04 | 1,447.16 | 1,710.28 | 1,973.40 | 2,368.08 | 2,762.76 |
| Llanengan | 789.35 | 920.90 | 1,052.46 | 1,184.02 | 1,447.14 | 1,710.25 | 1,973.37 | 2,368.04 | 2,762.71 |
| Llanfair | 789.03 | 920.54 | 1,052.04 | 1,183.55 | 1,446.56 | 1,709.57 | 1,972.58 | 2,367.10 | 2,761.62 |
| Llanfihangel y Pennant | 789.51 | 921.10 | 1,052.68 | 1,184.27 | 1,447.44 | 1,710.61 | 1,973.78 | 2,368.54 | 2,763.30 |
| Llanfrothen | 788.35 | 919.74 | 1,051.13 | 1,182.52 | 1,445.30 | 1,708.08 | 1,970.87 | 2,365.04 | 2,759.21 |
| Llangelynnin | 784.10 | 914.78 | 1,045.47 | 1,176.15 | 1,437.52 | 1,698.88 | 1,960.25 | 2,352.30 | 2,744.35 |
| Llangywer | 794.52 | 926.94 | 1,059.36 | 1,191.78 | 1,456.62 | 1,721.46 | 1,986.30 | 2,383.56 | 2,780.82 |
| Llanllechid | 785.99 | 916.99 | 1,047.99 | 1,178.99 | 1,440.99 | 1,702.99 | 1,964.98 | 2,357.98 | 2,750.98 |
| Llanllyfni | 792.73 | 924.86 | 1,056.98 | 1,189.10 | 1,453.34 | 1,717.59 | 1,981.83 | 2,378.20 | 2,774.57 |
| Llannor | 784.64 | 915.41 | 1,046.19 | 1,176.96 | 1,438.51 | 1,700.05 | 1,961.60 | 2,353.92 | 2,746.24 |
| Llanrug | 788.39 | 919.79 | 1,051.19 | 1,182.59 | 1,445.39 | 1,708.19 | 1,970.98 | 2,365.18 | 2,759.38 |
| Llanuwchllyn | 793.34 | 925.56 | 1,057.79 | 1,190.01 | 1,454.46 | 1,718.90 | 1,983.35 | 2,380.02 | 2,776.69 |
| Llanwnda | 790.21 | 921.91 | 1,053.61 | 1,185.31 | 1,448.71 | 1,712.11 | 1,975.52 | 2,370.62 | 2,765.72 |
| Llanycil | 785.49 | 916.40 | 1,047.32 | 1,178.23 | 1,440.06 | 1,701.89 | 1,963.72 | 2,356.46 | 2,749.20 |
| Llanystumdwy | 785.85 | 916.82 | 1,047.80 | 1,178.77 | 1,440.72 | 1,702.67 | 1,964.62 | 2,357.54 | 2,750.46 |
| Maentwrog | 787.52 | 918.77 | 1,050.03 | 1,181.28 | 1,443.79 | 1,706.29 | 1,968.80 | 2,362.56 | 2,756.32 |
| Mawddwy | 784.50 | 915.25 | 1,046.00 | 1,176.75 | 1,438.25 | 1,699.75 | 1,961.25 | 2,353.50 | 2,745.75 |
| Nefyn | 797.83 | 930.80 | 1,063.77 | 1,196.74 | 1,462.68 | 1,728.62 | 1,994.57 | 2,393.48 | 2,792.39 |
| Pennal | 792.96 | 925.12 | 1,057.28 | 1,189.44 | 1,453.76 | 1,718.08 | 1,982.40 | 2,378.88 | 2,775.36 |
| Penrhyndeudraeth | 804.19 | 938.22 | 1,072.25 | 1,206.28 | 1,474.34 | 1,742.40 | 2,010.47 | 2,412.56 | 2,814.65 |
| Pentir | 793.87 | 926.19 | 1,058.50 | 1,190.81 | 1,455.43 | 1,720.06 | 1,984.68 | 2,381.62 | 2,778.56 |
| Pistyll | 786.49 | 917.57 | 1,048.65 | 1,179.73 | 1,441.89 | 1,704.05 | 1,966.22 | 2,359.46 | 2,752.70 |
| Porthmadog | 792.12 | 924.14 | 1,056.16 | 1,188.18 | 1,452.22 | 1,716.26 | 1,980.30 | 2,376.36 | 2,772.42 |
| Pwllheli | 801.39 | 934.95 | 1,068.52 | 1,202.08 | 1,469.21 | 1,736.34 | 2,003.47 | 2,404.16 | 2,804.85 |
| Talsarnau | 795.66 | 928.27 | 1,060.88 | 1,193.49 | 1,458.71 | 1,723.93 | 1,989.15 | 2,386.98 | 2,784.81 |
| Trawsfynydd | 790.30 | 922.02 | 1,053.73 | 1,185.45 | 1,448.88 | 1,712.32 | 1,975.75 | 2,370.90 | 2,766.05 |
| Tudweiliog | 782.73 | 913.18 | 1,043.64 | 1,174.09 | 1,435.00 | 1,695.91 | 1,956.82 | 2,348.18 | 2,739.54 |
| Tywyn | 797.79 | 930.76 | 1,063.72 | 1,196.69 | 1,462.62 | 1,728.55 | 1,994.48 | 2,393.38 | 2,792.28 |
| Waunfawr | 788.12 | 919.47 | 1,050.83 | 1,182.18 | 1,444.89 | 1,707.59 | 1,970.30 | 2,364.36 | 2,758.42 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Heddlu**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + Police**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 941.15 | 1,098.00 | 1,254.86 | 1,411.72 | 1,725.44 | 2,039.15 | 2,352.87 | 2,823.44 | 3,294.01 |
| Aberdyfi | 947.71 | 1,105.66 | 1,263.61 | 1,421.56 | 1,737.46 | 2,053.36 | 2,369.27 | 2,843.12 | 3,316.97 |
| Abergwyngregyn | 942.49 | 1,099.57 | 1,256.65 | 1,413.73 | 1,727.89 | 2,042.05 | 2,356.22 | 2,827.46 | 3,298.70 |
| Abermaw | 956.47 | 1,115.88 | 1,275.29 | 1,434.70 | 1,753.52 | 2,072.34 | 2,391.17 | 2,869.40 | 3,347.63 |
| Arthog | 940.23 | 1,096.93 | 1,253.64 | 1,410.34 | 1,723.75 | 2,037.16 | 2,350.57 | 2,820.68 | 3,290.79 |
| Bala | 945.55 | 1,103.15 | 1,260.74 | 1,418.33 | 1,733.51 | 2,048.70 | 2,363.88 | 2,836.66 | 3,309.44 |
| Bangor | 989.94 | 1,154.93 | 1,319.92 | 1,484.91 | 1,814.89 | 2,144.87 | 2,474.85 | 2,969.82 | 3,464.79 |
| Beddgelert | 947.62 | 1,105.56 | 1,263.49 | 1,421.43 | 1,737.30 | 2,053.18 | 2,369.05 | 2,842.86 | 3,316.67 |
| Betws Garmon | 937.45 | 1,093.70 | 1,249.94 | 1,406.18 | 1,718.66 | 2,031.15 | 2,343.63 | 2,812.36 | 3,281.09 |
| Bethesda | 952.83 | 1,111.63 | 1,270.44 | 1,429.24 | 1,746.85 | 2,064.46 | 2,382.07 | 2,858.48 | 3,334.89 |
| Bontnewydd | 953.47 | 1,112.38 | 1,271.29 | 1,430.20 | 1,748.02 | 2,065.84 | 2,383.67 | 2,860.40 | 3,337.13 |
| Botwnnog | 937.94 | 1,094.26 | 1,250.59 | 1,406.91 | 1,719.56 | 2,032.20 | 2,344.85 | 2,813.82 | 3,282.79 |
| Brithdir a Llanfachreth | 941.04 | 1,097.88 | 1,254.72 | 1,411.56 | 1,725.24 | 2,038.92 | 2,352.60 | 2,823.12 | 3,293.64 |
| Bryncrug | 944.96 | 1,102.45 | 1,259.95 | 1,417.44 | 1,732.43 | 2,047.41 | 2,362.40 | 2,834.88 | 3,307.36 |
| Buan | 942.20 | 1,099.23 | 1,256.27 | 1,413.30 | 1,727.37 | 2,041.43 | 2,355.50 | 2,826.60 | 3,297.70 |
| Caernarfon | 968.30 | 1,129.68 | 1,291.07 | 1,452.45 | 1,775.22 | 2,097.98 | 2,420.75 | 2,904.90 | 3,389.05 |
| Clynnog Fawr | 943.43 | 1,100.66 | 1,257.90 | 1,415.14 | 1,729.62 | 2,044.09 | 2,358.57 | 2,830.28 | 3,301.99 |
| Corris | 944.06 | 1,101.40 | 1,258.75 | 1,416.09 | 1,730.78 | 2,045.46 | 2,360.15 | 2,832.18 | 3,304.21 |
| Criccieth | 955.75 | 1,115.05 | 1,274.34 | 1,433.63 | 1,752.21 | 2,070.80 | 2,389.38 | 2,867.26 | 3,345.14 |
| Dolbenmaen | 942.43 | 1,099.51 | 1,256.58 | 1,413.65 | 1,727.79 | 2,041.94 | 2,356.08 | 2,827.30 | 3,298.52 |
| Dolgellau | 958.56 | 1,118.32 | 1,278.08 | 1,437.84 | 1,757.36 | 2,076.88 | 2,396.40 | 2,875.68 | 3,354.96 |
| Dyffryn Ardudwy | 947.65 | 1,105.60 | 1,263.54 | 1,421.48 | 1,737.36 | 2,053.25 | 2,369.13 | 2,842.96 | 3,316.79 |
| Y Felinheli | 949.41 | 1,107.65 | 1,265.88 | 1,424.12 | 1,740.59 | 2,057.06 | 2,373.53 | 2,848.24 | 3,322.95 |
| Ffestiniog | 968.83 | 1,130.30 | 1,291.77 | 1,453.24 | 1,776.18 | 2,099.12 | 2,422.07 | 2,906.48 | 3,390.89 |
| Y Ganllwyd | 954.61 | 1,113.72 | 1,272.82 | 1,431.92 | 1,750.12 | 2,068.33 | 2,386.53 | 2,863.84 | 3,341.15 |
| Harlech | 945.60 | 1,103.20 | 1,260.80 | 1,418.40 | 1,733.60 | 2,048.80 | 2,364.00 | 2,836.80 | 3,309.60 |
| Llanaelhaearn | 954.37 | 1,113.44 | 1,272.50 | 1,431.56 | 1,749.68 | 2,067.81 | 2,385.93 | 2,863.12 | 3,340.31 |
| Llanbedr | 952.95 | 1,111.78 | 1,270.60 | 1,429.43 | 1,747.08 | 2,064.73 | 2,382.38 | 2,858.86 | 3,335.34 |
| Llanbedrog | 946.57 | 1,104.33 | 1,262.09 | 1,419.85 | 1,735.37 | 2,050.89 | 2,366.42 | 2,839.70 | 3,312.98 |
| Llanberis | 947.59 | 1,105.52 | 1,263.45 | 1,421.38 | 1,737.24 | 2,053.10 | 2,368.97 | 2,842.76 | 3,316.55 |
| Llandwrog | 955.04 | 1,114.21 | 1,273.39 | 1,432.56 | 1,750.91 | 2,069.25 | 2,387.60 | 2,865.12 | 3,342.64 |
| Llandygai | 944.83 | 1,102.31 | 1,259.78 | 1,417.25 | 1,732.19 | 2,047.14 | 2,362.08 | 2,834.50 | 3,306.92 |
| Llanddeiniolen | 935.83 | 1,091.81 | 1,247.78 | 1,403.75 | 1,715.69 | 2,027.64 | 2,339.58 | 2,807.50 | 3,275.42 |
| Llandderfel | 940.47 | 1,097.22 | 1,253.96 | 1,410.71 | 1,724.20 | 2,037.69 | 2,351.18 | 2,821.42 | 3,291.66 |
| Llanegryn | 949.42 | 1,107.66 | 1,265.89 | 1,424.13 | 1,740.60 | 2,057.08 | 2,373.55 | 2,848.26 | 3,322.97 |
| Llanelltyd | 946.32 | 1,104.04 | 1,261.76 | 1,419.48 | 1,734.92 | 2,050.36 | 2,365.80 | 2,838.96 | 3,312.12 |
| Llanengan | 946.31 | 1,104.02 | 1,261.74 | 1,419.46 | 1,734.90 | 2,050.33 | 2,365.77 | 2,838.92 | 3,312.07 |
| Llanfair | 945.99 | 1,103.66 | 1,261.32 | 1,418.99 | 1,734.32 | 2,049.65 | 2,364.98 | 2,837.98 | 3,310.98 |
| Llanfihangel y Pennant | 946.47 | 1,104.22 | 1,261.96 | 1,419.71 | 1,735.20 | 2,050.69 | 2,366.18 | 2,839.42 | 3,312.66 |
| Llanfrothen | 945.31 | 1,102.86 | 1,260.41 | 1,417.96 | 1,733.06 | 2,048.16 | 2,363.27 | 2,835.92 | 3,308.57 |
| Llangelynnin | 941.06 | 1,097.90 | 1,254.75 | 1,411.59 | 1,725.28 | 2,038.96 | 2,352.65 | 2,823.18 | 3,293.71 |
| Llangywer | 951.48 | 1,110.06 | 1,268.64 | 1,427.22 | 1,744.38 | 2,061.54 | 2,378.70 | 2,854.44 | 3,330.18 |
| Llanllechid | 942.95 | 1,100.11 | 1,257.27 | 1,414.43 | 1,728.75 | 2,043.07 | 2,357.38 | 2,828.86 | 3,300.34 |
| Llanllyfni | 949.69 | 1,107.98 | 1,266.26 | 1,424.54 | 1,741.10 | 2,057.67 | 2,374.23 | 2,849.08 | 3,323.93 |
| Llannor | 941.60 | 1,098.53 | 1,255.47 | 1,412.40 | 1,726.27 | 2,040.13 | 2,354.00 | 2,824.80 | 3,295.60 |
| Llanrug | 945.35 | 1,102.91 | 1,260.47 | 1,418.03 | 1,733.15 | 2,048.27 | 2,363.38 | 2,836.06 | 3,308.74 |
| Llanuwchllyn | 950.30 | 1,108.68 | 1,267.07 | 1,425.45 | 1,742.22 | 2,058.98 | 2,375.75 | 2,850.90 | 3,326.05 |
| Llanwnda | 947.17 | 1,105.03 | 1,262.89 | 1,420.75 | 1,736.47 | 2,052.19 | 2,367.92 | 2,841.50 | 3,315.08 |
| Llanycil | 942.45 | 1,099.52 | 1,256.60 | 1,413.67 | 1,727.82 | 2,041.97 | 2,356.12 | 2,827.34 | 3,298.56 |
| Llanystumdwy | 942.81 | 1,099.94 | 1,257.08 | 1,414.21 | 1,728.48 | 2,042.75 | 2,357.02 | 2,828.42 | 3,299.82 |
| Maentwrog | 944.48 | 1,101.89 | 1,259.31 | 1,416.72 | 1,731.55 | 2,046.37 | 2,361.20 | 2,833.44 | 3,305.68 |
| Mawddwy | 941.46 | 1,098.37 | 1,255.28 | 1,412.19 | 1,726.01 | 2,039.83 | 2,353.65 | 2,824.38 | 3,295.11 |
| Nefyn | 954.79 | 1,113.92 | 1,273.05 | 1,432.18 | 1,750.44 | 2,068.70 | 2,386.97 | 2,864.36 | 3,341.75 |
| Pennal | 949.92 | 1,108.24 | 1,266.56 | 1,424.88 | 1,741.52 | 2,058.16 | 2,374.80 | 2,849.76 | 3,324.72 |
| Penrhyndeudraeth | 961.15 | 1,121.34 | 1,281.53 | 1,441.72 | 1,762.10 | 2,082.48 | 2,402.87 | 2,883.44 | 3,364.01 |
| Pentir | 950.83 | 1,109.31 | 1,267.78 | 1,426.25 | 1,743.19 | 2,060.14 | 2,377.08 | 2,852.50 | 3,327.92 |
| Pistyll | 943.45 | 1,100.69 | 1,257.93 | 1,415.17 | 1,729.65 | 2,044.13 | 2,358.62 | 2,830.34 | 3,302.06 |
| Porthmadog | 949.08 | 1,107.26 | 1,265.44 | 1,423.62 | 1,739.98 | 2,056.34 | 2,372.70 | 2,847.24 | 3,321.78 |
| Pwllheli | 958.35 | 1,118.07 | 1,277.80 | 1,437.52 | 1,756.97 | 2,076.42 | 2,395.87 | 2,875.04 | 3,354.21 |
| Talsarnau | 952.62 | 1,111.39 | 1,270.16 | 1,428.93 | 1,746.47 | 2,064.01 | 2,381.55 | 2,857.86 | 3,334.17 |
| Trawsfynydd | 947.26 | 1,105.14 | 1,263.01 | 1,420.89 | 1,736.64 | 2,052.40 | 2,368.15 | 2,841.78 | 3,315.41 |
| Tudweiliog | 939.69 | 1,096.30 | 1,252.92 | 1,409.53 | 1,722.76 | 2,035.99 | 2,349.22 | 2,819.06 | 3,288.90 |
| Tywyn | 954.75 | 1,113.88 | 1,273.00 | 1,432.13 | 1,750.38 | 2,068.63 | 2,386.88 | 2,864.26 | 3,341.64 |
| Waunfawr | 945.08 | 1,102.59 | 1,260.11 | 1,417.62 | 1,732.65 | 2,047.67 | 2,362.70 | 2,835.24 | 3,307.78 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 14 MAI 2015 |
| **PENNAWD** | DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION |
| **PWRPAS** | I addasu ac adrodd ar newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion yn dilyn ail strwythuro uwch reolaeth y Cyngor. |
| **ARGYMHELLIAD** | Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad, yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn unol â'r adroddiad ac yn dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r cyfansoddiad sydd yn deillio o'r newidiadau. |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor. |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |

**Cefndir**
O ganlyniad i ail strwythuro Adrannau Adnoddau Dynol a Strategol a Gwella er creu Adran Cefnogaeth Gorfforaethol mae angen adolygu'r cynllun dirprwyo mewn ymateb i'r strwythur newydd. Yn yr un modd mae angen addasiadau er eglurdeb ar gyfer y Pennaeth Cyllid o ganlyniad i'r ail strwythuro. Mae'r newidiadau i'r Cynllun yn Atodiad 1. Mae rhai o'r newidiadau ynglŷn a chyfrifoldebau y Cabinet ac eisoes wedi eu gweithredu, adroddir arnynt er gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes hefyd wedi dynodi Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd statudol . Gofynnir hefyd am yr hawl dirprwyedig i wneud addasiadau golygyddol i'r Cyfansoddiad er sicrhau fod y newidiadau yn cael eu hadlewyrchu drwy'r ddogfen.

**Argymhelliad**
**Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad, yn diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn unol â'r adroddiad ac yn dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r Cyfansoddiad sydd yn deillio o'r newidiadau.**

**Atodiad 1**

**ADRAN 13   RHAN 3**

# 3. PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

3.1 Gweithredu fel Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

3.2 Yr hawl i awdurdodi aelodau i fynychu seminarau neu gynadleddau allanol nad ydynt ar y rhestr gymeradwy

3.3 Penderfynu ar ran y cyflogwr ar gam 1 o unrhyw apêl dan drefn datrys anghydfod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

3.4 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol :-

- Rhaglen Wella
- Blaenoriaethau
- Trosolwg polisi
- Cynllun Integredig Sengl
- Caffael
- Craffu
- Ymchwil
- Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaeth democrataidd.
- Cynllun Cydraddoldeb
- Cynllun Iaith
- Cyfieithu
- Cyfathrebu Mewnol ac Allanol
- Cefnogaeth Cabinet

- Amodau a thelerau gwaith
- Cysylltiadau diwydiannol
- Hyfforddi a datblygu staff
- Y drefn recriwtio a phenodi
- Cyfrifoldebau'r cyflogwr mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.
- Argraffu

3.5 Yr hawl i roi caniatâd dan Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (y defnydd o orchmynion gwasgaru).

3.6 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â phenodi aelodau i wasanaethu ar bwyllgorau.

3.7 Penderfynu ar geisiadau ailraddio (i'w weithredu trwy'r gyfundrefn arfarnu swyddi).

3.8 Bod yn swyddog priodol ar gyfer llofnodi ceisiadau am wiriad gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol.

## 5. Pennaeth Cyllid

*Yn y "<u>Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau</u>" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor</u>**

5.1 Bod y swyddog priodol at bwrpas Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol l972 ac Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol l988.

**<u>Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet</u>**

5.2 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Archwilio Mewnol
- Cyfrifeg a **<u>Chyllidebu</u>**
- Rheolaeth Risg ac Yswiriant
- Y Cynllun Pensiwn a'r Gronfa Bensiwn (**<u>gan gynnwys y strategaeth fuddsoddi</u>**)
- Rheolaeth Trysorlys (buddsoddiadau'r **<u>Cyngor</u>)**
- Treth y Cyngor a Threthi Annomestig
- Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor
- Taliadau
- Incwm a Chredydwyr
- Cyflogau
- Technoleg Gwybodaeth

5.3 Bod y swyddog priodol at ddibenion Adran 115 ac 146 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5.4 Hawl i lofnodi tystysgrif fod contractau yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cytundebau) 1997.

5.5 Awdurdodi dileu dyledion hyd at y symiau a nodir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

5.6 Bod y Swyddog Awdurdodi ar gyfer dibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a chaiff awdurdodi swyddogion eraill o fewn y gwasanaeth i fod yn Swyddog Awdurdodi yn yr un modd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **14 Mai 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn dilyn is-etholiad ward Cadnant, Caernarfon, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Llafur | 5 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma’r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â’r nifer o’r holl seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o’r seddau ar y pwyllgor â’r nifer o seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae’r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Grŵp Llafur yn ennill sedd

ar y Pwyllgor Archwilio ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio.

3.2 Golyga hefyd fod Grŵp Llafur yn ennill sedd ar y Pwyllgor Iaith ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Iaith.

3.3 Golyga hefyd fod Grŵp Llafur yn ennill sedd ar Pwyllgor Pensiynau ar draul Grŵp Plaid Cymru sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Pensiynau.
(Gweler **Atodiad A**)

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor:

- drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.3 uchod yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 8 | 5 | 3 | 2 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | | |
| Iaith | 7 | 4 | 3 | 1 | | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 3 | | | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **72** | **37** | **27** | **10** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **90** | **47** | **34** | **13** | **5** | **5** | **194** |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 14 Mai 2015 |
| **PWNC** | Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad i aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith. |
| **AWDURON** | Y Cynghorydd Lesley Day<br>Cadeirydd – Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **SWYDDOG PERTHNASOL** | Geraint Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**1.** Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 newydd, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf bob blwyddyn, i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt yr uchod.

**2.** Fel y gwyddoch, bu newid eleni gydag uno dwy Adran o fewn y Cyngor a bellach penodwyd Geraint Owen fel Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, yn ei gyfarfod ar 10fed o Fawrth, 2015 mai Pennaeth yr Adran newydd fyddai'n cael ei benodi i'r rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Wrth orffen yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, byddwn yn hoffi talu teyrnged bersonol i Mr Geraint George am y ffordd y cyflawnodd y rôl hwn ers cychwyn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac i ddymuno'n dda i Mr Geraint Owen yn ei rôl newydd.

**3.** Ar 17 Gorffennaf 2014, cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Llawn yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r aelodau etholedig, yn cynnwys y gefnogaeth oedd yn cael ei datblygu.

**4.** Mae'r isod yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol yng nghyswllt y gefnogaeth i'r aelodau.

A. **Cefnogi cyfathrebu effeithiol?**

1. **Gwybodaeth / Gweithdai / Ymgynghori** – Unwaith eto eleni, cynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer Aelodau Etholedig, yn cynnwys, yn benodol, gweithdai allweddol am y Strategaeth Ariannol, a arweiniwyd gan yr Aelod Cabinet Cyllid. Profodd y gweithdai yn arbennig o fuddiol trwy sefydlu lefel arwyddocaol o ddealltwriaeth ar y cyd ar faterion yn ymwneud â'r Strategaeth Ariannol, cyn i'r mater gael ei drafod yn y Cyngor llawn. Roedd yr adborth anffurfiol gan yr aelodau a oedd yn bresennol yn gadarnhaol iawn er y derbyniwyd rhai sylwadau am amseru'r cyfarfodydd a oedd yn ei wneud yn anodd i gynghorwyr sydd yn gweithio eu mynychu. Mae hyn wedi ei nodi a bydd yn dylanwadu ar drefniadau digwyddiadau cyffelyb i'r dyfodol.

2. **Pencampwyr** – Mae swydd ddisgrifiad cyffredinol ar gyfer "rôl y pencampwr" yn ei le ac mae'r isod wedi'u penodi.

| | |
|---|---|
| • Pobl Hŷn | Selwyn Griffith |
| • Gofalwyr | Eryl Jones Williams |
| • Awtistiaeth | Elin Walker Jones |
| • Datblygu Aelodau | Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Les Day) |
| • Craffu | Cadeirydd y Fforwm Craffu (Peter Read) |
| • Anabledd | Peter Read |
| • Atal Tlodi | Brian Jones |
| • Yr Iaith Gymraeg | Craig ab Iago |
| • Llais Plant a Phobl Ifanc | Gethin Glyn Williams |
| • Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Gwen Griffith |
| • Masnach Deg | R Hefin Williams |
| • Bioamrywiaeth | Angela Russell |
| • Iechyd Meddwl | Beth Lawton |
| • Cynaliadwyedd | Aled Evans |
| • Busnesau Bach | Sian Gwenllian |

3. **Fforymau Ardal** – Mae'r fforymau ardal wedi parhau ar yr un ffurf yn 2014/15 yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd ddiwedd 2013/14. Mae'r pedwar Fforwm Ardal (Bangor / Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor (Pwyllgor Ardal) a Meirionnydd) wedi bod yn weithredol yn ystod 2014/15 ac yn gyffredinol, fe ystyriwyd y rhelyw yn llwyddiant.

4. **Gwybodaeth a Chyfathrebu Electroneg** – Mae pob aelod etholedig wedi derbyn y cynnig a'r cyfle i dderbyn llechen/ iPad. Tros y blynyddoedd diwethaf mae cynnig wedi bod i dderbyn hyfforddiant sylfaenol ar sut i'w ddefnyddio, sesiwn pellach ar sut i wneud gwell defnydd o'r iPad, a/neu sesiynau 1:1 i'r aelodau etholedig hynny a oedd yn dymuno derbyn cefnogaeth bellach ar ddefnyddio'r iPad. Mae amryw wedi gwneud cais am hyfforddiant pellach i uchafu eu sgiliau a'u defnydd o'r iPad, ac mae trefniadau mewn lle ar gyfer peilot i'r sesiwn hyfforddiant hwn.

Mae bron i 70 o'r 75 aelod wedi derbyn iPad i'w cynorthwyo nhw gyda'u gwaith fel aelodau etholedig ac mae nifer sylweddol yn eu defnyddio nhw fel eu prif ddull o gyfathrebu ac maent yn adrodd eu bod yn derbyn gwybodaeth yn llawer rhwyddach ac mewn modd amserol drwy'r iPad.

Nid oes gan rai aelodau etholedig ddarpariaeth iPad ac mae eraill wedi gwneud ceisiadau penodol i dderbyn copïau papur o ddogfennau rhai pwyllgorau. Ers gweithredu'r system rydym wedi gweld cynnydd graddol yn nifer yr aelodau sy'n gwneud cais am gopïau papur er gwaetha'r ffaith fod ganddynt iPad ac rydym yn cadw llygad ar y sefyllfa.

Mae'n ymddangos fod y problemau technegol gyda'r ipad yn lleihau mewn niferoedd, fodd bynnag, os ydych yn cael anawsterau mae'n hanfodol bod aelodau yn cysylltu â'r Ddesg Gymorth TG ar 01286 679 114 am gymorth.

5. **Bwletinau Gwybodaeth** – Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd cyfanswm o 333 o brif erthyglau yn *Rhaeadr*, sydd yn cyfateb ar gyfartaledd i 28 erthygl y mis. Mae'r erthyglau hyn fel arfer yn cynnwys gwybodaeth ynghylch beth mae'r Cabinet neu aelodau unigol o'r Cabinet yn eu gwneud, materion cefnogi aelodau, beth sy'n digwydd yn ehangach o fewn y Cyngor (newyddion diweddaraf / datganiadau i'r wasg) a materion o fewn wardiau (gwaith ffordd / gwaredu eiddo/ cynllunio ac ati). Yn ychwanegol i hyn, mae gwybodaeth am faterion megis rhaglenni pwyllgorau a phenderfyniadau aelodau cabinet yn cael eu cyhoeddi bob ychydig ddyddiau. Ar gyfartaledd, mae'r prif erthyglau a gyhoeddir yn derbyn 875 o ymweliadau bob mis. Golyga hyn fod y Cynghorwyr sydd â mynediad i'r we, ar gyfartaledd yn clicio i fewn i oddeutu 12 prif erthygl yr un bob mis.

   Yn seiliedig ar farn a gasglwyd llynedd, penderfynwyd parhau i gyhoeddi *Rhaeadr* bob pythefnos am flwyddyn ychwanegol, a'i ariannu o gyllideb unwaith ac am byth am y flwyddyn.

6. **Adroddiadau Aelodau Cabinet i'r Cyngor** – Mae system o gael aelod unigol o'r Cabinet yn adrodd ar elfen o'i (g)waith ym mhob cyfarfod Cyngor, gyda chyfle am gwestiynau, yn parhau yn weithredol er bod y cylch presennol o gyflwyniadau wedi gorffen.

7. **Cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet** – Mae'r berthynas rhwng Craffu a'r Cabinet yn parhau i ddatblygu, ac yn seiliedig ar sicrhau parch a chydweithio er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer trigolion Gwynedd. Cynhelir cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet, gyda'r trafodaethau'n rhai agored ac adeiladol i asesu cynnydd hyd yn hyn a rhannu gwersi a ddysgwyd gan y Craffwyr a'r Cabinet. Bellach, mae'r gogwydd Craffu wedi addasu rhywfaint, gyda'r Craffwyr yn craffu eitemau cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ogystal â chraffu effaith polisi sydd eisoes yn weithredol, ond gyda'r ffocws yn barhaus ar yr effaith ar drigolion Gwynedd. Mae hyn eisoes yn cael ei adlewyrchu yn y rhaglen graffu ddrafft ar gyfer y flwyddyn i ddod.

8. **Cyfryngau Cymdeithasol** – Mae'r Cyngor llawn eisoes wedi mabwysiadu protocol ar ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr er mwyn rhoi canllaw i aelodau ar y cyfleoedd a'r problemau posib wrth eu defnyddio, ac mae hyfforddiant i'r maes wedi ei gynnal a threfniadau ar y gweill i gynnal hyfforddiant pellach.

9. **Gweddarlledu a gwefannau Cynghorau Cymuned** – Er mwyn hyrwyddo a chynyddu atebolrwydd democrataidd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor, un o'r prif ddatblygiadau gan y Cyngor eleni yw gwe-ddarlledu. Cyn dechrau gwe-ddarlledu ym mis Ionawr eleni, cynhaliwyd gweithdy er mwyn i'r holl aelodau dderbyn canllawiau ar faterion pwysig i'w cofio wrth we-ddarlledu, a chynhaliwyd gweithdy i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion hefyd.

   Mae gan y Cyngor gytundeb blynyddol i we-ddarlledu hyd at 60 awr o ddeunydd, ac erbyn hyn mae dros 35 o oriau wedi eu gwe-ddarlledu o amrywiol bwyllgorau. Mae'r ffigurau gwylio, yn amlwg yn amrywio o bwyllgor i bwyllgor, ond mae'r niferoedd yn codi yn barhaus wrth i nifer wylio'r archif yn hytrach na'r gwe-ddarllediad byw. Gellir gwylio'r gwe-ddarllediadau trwy'r ddolen isod:

   https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

   Law yn llaw â hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn hyrwyddo datblygiadau i wefannau Cynghorau Tref a Chymuned, gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Mae 43 o Gynghorau Tref a Chymuned wedi derbyn cynnig grant ffurfiol drwy Cist Gwynedd i ddatblygu neu sefydlu gwefan unigol eu hunain; gydag 20 o gynghorau hefyd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda chynghorau cyfagos i gaffael darpariaeth ar y we ar y cyd. Yn ddiweddar, mae'r Adran Technoleg Gwybodaeth wedi paratoi manyleb i helpu gyda hyn.

**B. Cefnogaeth i aelodau etholedig gynnal eu dyletswyddau penodol**

10. **Cyfweliadau Datblygiad Personol** – Eleni am y tro cyntaf, cynigiwyd i aelodau nad ydynt yn Aelodau Cabinet i dderbyn Cyfweliad Datblygiad Personol er mwyn rhoi cyfle i asesu eu hanghenion datblygu. Manteisiodd 20 o aelodau ar y cyfle a chynhaliwyd y cyfarfodydd anffurfiol ym mis Medi a Hydref 2014. Mae allbwn y cyfweliadau wedi bod yn allweddol wrth liwio a llunio rhaglen hyfforddiant y Cyngor ar gyfer 2015/16. Noder fod nifer o'r themâu a godwyd eisoes yn cael eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant gyfredol, a bu'r cyfweliadau yn fodd o godi ymwybyddiaeth am rai o'r cyrsiau cyfredol.

    Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ceisio asesu'r drefn, ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd am y cyfweliadau yn nodi fod nifer yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael sgwrs a gwrandawiad. Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn fuan ar sut y mae'r Aelodau fu'n rhan o'r drefn wedi elwa o fod yn rhan o'r broses, os o gwbl.

Bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i'r Aelodau yn y dyfodol agos ar gyfer mynegi diddordeb mewn Cyfweliad Datblygiad Personol ar gyfer y cyfnod Medi/Hydref 2015.

11. **Datblygiadau yn yr ardal leol** – mae peth gwybodaeth o'r fath ar gael yn *Rhaeadr* ond mae hwn yn faes sy'n parhau i fod angen sylw pellach. Yn 2014/15 sefydlwyd Grŵp Tasg ar y cyd o aelodau etholedig a swyddogion er mwyn edrych ar hyn. Cafwyd cydnabyddiaeth ei fod yn faes eang a chymhleth iawn, a daeth y grŵp i gasgliad ar ddau brif faes:

    Meysydd strategol mawr ee Her Gwynedd – daethpwyd i gasgliad fod angen defnyddio craffu ymlaen llaw yn fwy aml, fod ymrwymiad gan Aelodau Cabinet a swyddogion i gynnwys yr holl aelodau lleol yn fuan mewn trafodaethau, a bod angen ymrwymiad gan aelodau unigol i barchu ymddiriedaeth a chyfrinachedd hyd bod cynigion newid yn aeddfed i'w cyhoeddi ac ymgynghori arnynt.

    Trefniadau cyswllt gweithredol – dyma'r maes sy'n creu'r rhwystredigaeth mwyaf i aelodau, a phenderfynwyd, ymysg pethau eraill, y dylid annog aelodau i wneud defnydd, yn y lle cyntaf, o Galw Gwynedd oherwydd effeithlonrwydd Galw Gwynedd yn tracio ymholiadau.

12. **Ymateb i ymholiadau neu gwynion gan Aelodau Lleol** – I gyd-fynd â'r uchod, mae trefn eisoes yn ei lle i sicrhau bod aelod lleol yn cysylltu â'r gwasanaeth penodol yn gyntaf er mwyn cael ateb i ymholiad. Os nad yw'r ateb a ddarperir yn ddigonol, dylid cyfeirio'r mater penodol i sylw'r Aelod Cabinet i sicrhau y derbynnir ymateb. Mae aelodau wedi'u hannog i ddefnyddio'r systemau priodol gan fod hynny'n fwy tebygol o arwain at ddatrysiad i'r ymholiad.

13. **Hawliau Aelod Unigol mewn cyfarfodydd Cabinet** – Gwahoddir yr aelod lleol i fod yn bresennol os yw mater lleol yn codi. Cyfrifoldeb y Tîm Cabinet yw adnabod aelodau lleol ar gyfer eitemau lleol a chyfrifoldeb yr aelod lleol yw sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o gynnwys rhaglen y Cabinet.

14. **Hyrwyddo rôl y Cynghorydd** – Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, (ymgynghoriad hyd at 28 Ebrill 2015) yn nodi bod diffyg amrywiaeth ymhlith Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, yn nhermau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched. Mae grŵp tasg cenedlaethol wedi'i sefydlu er mwyn edrych ar ehangu cyfranogiad. Yng Ngwynedd, mae grŵp bychan o gynghorwyr wedi cael ei sefydlu mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar y maes hwn, ac i baratoi syniadau ar gyfer gweithredu. Mae'r grŵp tasg wedi cychwyn ar ei waith drwy ystyried i ba raddau y mae data cyfredol corff aelodau etholedig Gwynedd yn adlewyrchu'r boblogaeth yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn fodd o gynorthwyo'r grŵp i ddarparu fframwaith ar gyfer unrhyw gynigion y bydd modd eu datblygu dros y misoedd nesaf. Yn y tymor hwy, mae camau yn cael eu cymryd i hyrwyddo dealltwriaeth o ddemocratiaeth mewn llywodraeth leol ymysg plant a phobl ifanc, ac i godi ymwybyddiaeth o'r rôl y gallent chwarae i wneud gwahaniaeth. Mae'r Grŵp

hefyd yn edrych ar adnabod y rhwystrau i bobl ifanc a merched o fewn llywodraeth leol er mwyn ceisio annog y grwpiau hyn – a dan-gynrychiolir ar hyn o bryd – i chwarae rôl mwy blaenllaw o fewn llywodraeth leol yn y dyfodol.

15. **Mynediad i'r Anabl** – Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Cynghorydd Peter Read, y Pencampwr Anabledd, a Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gomisiynu adroddiad ar hygyrchedd i Swyddfeydd y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cymeradwyo rhaglen synhwyrol o addasiadau i wella hyn. Mae llawer o'r newidiadau hynny, yn cynnwys darparu rampiau o fewn Siambr Dafydd Orwig a lledu drysau yn ymyl suite ystafelloedd cyfarfod y Pencadlys, wedi eu cyflawni.

C. **Cefnogaeth i aelodau craffu a phwyllgorau eraill**

16. **Cyngor ac arweiniad annibynnol ar gyfer Cadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgorau Craffu** – Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yr Uwch Reolwr (Comisiynu Corfforaethol) a'r tîm o fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn cynghori'r pwyllgorau ar eu rhaglen waith, yn cynnal cyfarfodydd paratoi ac yn cynghori ar y rhaglen waith fyw er mwyn sicrhau bod craffu yn ychwanegu gwerth.

    Mae'r tri Phwyllgor Craffu wedi derbyn hyfforddiant ar eu rôl ac yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol. Eleni, ar gyfer creu rhaglen waith 2015/16 mae Cadeiryddion Craffu ac Aelodau Cabinet wedi ymrwymo i ddefnyddio craffu ymlaen llaw yn fwy aml a bod deialog cyson ynglŷn â materion y gellid ymdrin â hwy yn y ffordd yma yn digwydd yn gyson. Yn ogystal, mae'r Fforwm Craffu, yn ystyried y rhaglen waith a'r meysydd blaenoriaeth ar draws yr holl bwyllgorau, a'r cyfarfodydd paratoi yn ystyried materion perfformiad, gan gynnwys perfformiad lle mae gofid yn y rhaglen waith.

17. **Gweinyddu a chofnodi cyfarfodydd a chyhoeddi'r cofnodion** (craffu ac eraill) – Mae'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu ac yn gwneud cofnodion bras o waith y pwyllgorau craffu, y cabinet a'r pwyllgorau eraill. Mae'r dull o lunio cofndoion pwyllgorau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn dilyn sylwadau yn yr adolygiad llywodraethu o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn eu gwneud yn fwy cryno ac eglur.

    Mae gwaith moderneiddio yn y siambrau yn ein paratoi ymhellach ar gyfer gofynion y dyfodol yng nghyd-destun mynychu cyfarfodydd o bell.

18. **Ymchwiliadau Craffu** – Mae'r Ymchwiliadau yn ymgymryd â gwaith i archwilio effaith polisïau ar lawr gwlad. Yn ystod 2014/15, fe wnaeth aelodau'r Pwyllgorau Craffu, gyda chefnogaeth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd ac Uwch Swyddogion yr hen Adran Strategol a Gwella, ymgymryd â nifer o ymchwiliadau craffu 'dechrau a gorffen'. Dyma'r ymchwiliadau yn 2014/15:

    <u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>

- O’r Ysbyty i’r Cartref (rhan 1) – wedi ei gwblhau
- O’r Ysbyty i’r Cartref (rhan 2) – ar waith
- Addysg Gymraeg - ar waith

Pwyllgor Craffu Cymunedau

- Cludiant Addysg ôl-16 – wedi ei gwblhau
- Digartrefedd – ar waith

Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- Ni gynhaliwyd ymchwiliad craffu yn ystod y flwyddyn.

**Ch. Cefnogaeth i’r holl aelodau – gweinyddol, ymarferol a datblygiadol**

19. **Cefnogaeth weinyddol i’r grwpiau gwleidyddol** – Gweithredir cefnogaeth weinyddol i’r grwpiau gwleidyddol yn unol â phenderfyniad y Cyngor ym mis Mai 2012, gyda’r tri grŵp mwyaf yn derbyn cefnogaeth weinyddol yn unol â’u maint.

20. **Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio** - Gweinyddir, prosesir a thelir cyflogau a chostau teithio yn unol â chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae’r canllawiau er mwyn hawlio ar y wefan. Cymerir y cyfle hwn i atgoffa’r Aelodau o’r angen i gyflwyno cais bob mis yn unol â’r canllawiau. Bydd gwybodaeth am gostau Aelodau yn cael eu cyhoeddi ar safle we y Cyngor yn flynyddol yn unol â’r gofynion.

21. **Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig** – Rhaid i’r Cyngor wneud trefniadau i alluogi aelodau etholedig i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad blynyddol, ond nid yw’n orfodol i unrhyw aelod baratoi adroddiad o’r fath. Defnyddiwyd templed safonol i gynorthwyo aelodau wrth gynhyrchu eu hadroddiadau blynyddol yn 2013/14 gyda data ynghylch nifer y pwyllgorau a fynychwyd a nifer y sesiynau hyfforddiant a fynychwyd gan bob aelod unigol eisoes wedi’i gynnwys. Bu i 26 aelod greu a chyhoeddi adroddiad y llynedd. Bydd nodyn yn cael ei ddosbarthu yn fuan trwy *Rhaeadr* i’r holl Aelodau yn cynnwys trefniadau cyhoeddi ar gyfer adroddiadau 2014/15.

22. **Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant** – Fel a nodwyd eisoes, adnabuwyd meysydd hyfforddiant ar gyfer aelodau fel allbwn o’r Cyfweliadau Datblygu Personol a gynhaliwyd ac fe wnaeth y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu fwrw ymlaen â chynlluniau gan addasu’r rhaglen hyfforddiant i aelodau yn seiliedig ar y canfyddiadau ynghyd ag unrhyw adborth arall roeddent wedi ei dderbyn.

    Yn ystod 2014/15, cynigiwyd rhaglen amrywiol i aelodau, ond mae presenoldeb ar rai cyrsiau yn fater o bryder. Mae cynnwys a chyflwyniad y sesiynau’n cael eu hadolygu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod mor ddefnyddiol a deniadol â phosib i’r aelodau. Yn ogystal, mae gwaith wrthi’n digwydd i ddatblygu dysgu dros y we, a fydd, gyda gobaith, yn cynnig dull amgen i aelodau dderbyn hyfforddiant ac yn cynyddu cyfranogiad mewn hyfforddiant.

Trysorlys ei Mawrhydi

Correspondence & Enquiry Unit
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ
Public.enquiries@hmtreasury.gsi.gov.uk

Y Cynghorydd Dewi Owen
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ebrill 2015
Ein cyfeirnod: T02015/00059
Eich cyfeirnod: ER

Annwyl Cynghorydd Owen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Rhagfyr ynglŷn ag osgoi trethi, a basiwyd gan y Prif Weinidog i'r Trysorlys. Gan nad yw'n ymarferol i Weinidogion ymateb i'r holl lythyrau a dderbyniant, gofynnwyd i mi ymateb ar eu rhan.

Hoffwn ymddiheuro am yr oedi wrth aros am ymateb i'ch llythyr.

Gadewch i mi eich sicrhau bod y Llywodraeth yn ystyried osgoi trethi yn fater hynod ddifrifol. Rydym eisiau system drethi gystadleuol gyda rheolau syml a theg i sicrhau bod pob trethdalwr yn talu ei ran.

Mae system drethi'r DG yn gweithio ar sail egwyddorion sydd wedi'u cytuno'n rhyngwladol, ac sy'n penderfynu faint o elw ddylai pob gwlad ei drethu. Datblygwyd y rheolau treth rhyngwladol hyn gyntaf yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf ac mae angen eu diweddaru.

Mae'r DG yn arwain y blaen ar weithredu'n amlochrog trwy'r G20 a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ddiwygio'r safonau treth rhyngwladol er mwyn atal cwmnïau rhyngwladol rhag symud eu helw. Mae'n hanfodol ystyried y materion hyn mewn modd cynhwysfawr a chydlynol i ganfod datrysiadau effeithiol. Mae Cynllun Gweithredu BEPS (*Base Erosion and Profit Shifting*) yr OECD, a dderbyniodd gefnogaeth lawn gan Arweinwyr y G20 yn eu huwchgynhadledd yn St Petersburg yn 2013, yn amlinellu rhaglen waith fanwl sy'n cynnwys 15 eitem benodol wedi'u gwasgaru dros gyfnod o ddwy flynedd.

Yn ôl y disgwyl, cytunwyd ar ddeilliannau cyntaf y prosiect erbyn mis Medi 2014, yn cynnwys y gwaith ar dempled adrodd safonol a'r cyfuniad o drefniadau anghyson.

Mae'r DG yn gweithio gyda'r G20, yr OECD a gwledydd eraill i fynd ar drywydd hyn gyda swyddogion o Drysorlys EM a HMRC yn rhan o holl weithgorau OECD a'r Tasglu Economi Digidol (*Digital Economy Taskforce*) a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r Cynllun Gweithredu BEPS ar gael ar y we yn: www.oecd.org/ctp/BEPSActionPlan.pdf.

I ddangos ein hymrwymiad i'r prosiect hwn, mae'r DG, ar y cyd â'r Almaen a Ffrainc, wedi cyfrannu €550,000 yr un i'r OECD i sicrhau cynnydd parhaus. Mae'r DG wedi defnyddio ei rôl fel Llywydd y G8 i feithrin cefnogaeth ryngwladol i'r gwaith hwn ac i sicrhau yr ystyrir anghenion gwledydd sy'n datblygu. Yn uwchgynhadledd y G8 yn Lough Erne ym mis Mehefin, rhoddodd yr arweinwyr

gwleidyddol gefnogaeth frwd i waith yr OECD ar BEPS gan ddatgan eu hymrwymiad i weithredu i roi sylw i'r materion hyn, boed hynny'n unigol neu gyda'i gilydd.

Mae'r Llywodraeth hon wedi bod yn ddidostur yn ei hymdrechion i wasgu ar osgoi trethi ac mae wedi rhoi amrediad o gamau ar waith i atal osgoi trethi o'r cychwyn cyntaf, ac i ganfod y weithred a'i gwrthsefyll yn effeithiol os yw'r rhai sy'n gyfrifol yn dal ati. Yn sgil buddsoddiad o £1 biliwn gan y Llywodraeth i daclo osgoi trethi, efadu trethi a diffyg cydymffurfio â threthi, mae'r HRMC wedi sicrhau mwy na £85 biliwn mewn incwm cydymffurfiaeth ers dechrau'r Senedd hon. Fel rhan o hyn, ers mis Ebrill 2010 mae HRMC wedi sicrhau oddeutu £31 biliwn gan fusnesau mawr.

Fel y pwysleisiwyd yn ystod ein cyfnod yn Llywyddu'r G8 rydym eisiau i wledydd sy'n datblygu elwa o gael mwy o dryloywder gan wella eu gallu i ddefnyddio adnoddau domestig. Mae'r G20 wedi ategu'r ymrwymiad hwn gan ofyn i'r Gweithgor Datblygu (*Development Working Group*) lunio Adroddiad sy'n nodi'r prif ffynonellau sy'n gyfrifol am BEPS mewn gwledydd sy'n datblygu, yn ogystal â sut all y G20 helpu'r gwledydd hyn i ymdrin â hwy. Mae'r DG yn gweithredu fel un o gyd-hwyluswyr ffrwd gwaith y Gweithgor ar gyfer Symud Adnoddau Domestig (*Domestic Resource Mobilization*) ac mae'n ymwneud llawer â'r gwaith hwn.

Y ffordd fwyaf effeithiol i helpu gwledydd sy'n datblygu gasglu'r dreth sy'n ddyledus iddynt yw drwy ddarparu cefnogaeth dechnegol i'w gweinyddwyr trethi i'w helpu i gynnal systemau trethiant domestig cynaliadwy. Mae Uned Adeiladu Capasiti (*Capacity Building Unit*) yr HMRC yn gweithio mewn partneriaeth â gwledydd sy'n datblygu i ddarparu cefnogaeth a chymorth iddynt yn yr hirdymor, gan gynnwys rhoi arbenigwyr trethu profiadol yr HRMC i weithio gyda hwy. Mae hyn yn ychwanegol i'r swm o oddeutu £20 miliwn y flwyddyn y mae'r Adran Ddatblygu Rhyngwladol yn ei wario ar adeiladu capasiti trethi trwy ei raglenni yn y gwahanol wledydd.

Mae'r DG hefyd yn ariannu prosiectau capasiti trethi ac yn gweithio gyda sefydliadau rhyngwladol megis yr *African Tax Administration Forum*, Banc y Byd a'r OECD. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygiad Rhyngwladol fod £6 miliwn ar gael i gefnogi prosiectau a gyflawnir gan Sefydliadau Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys £3 miliwn ar gyfer cyngor arbenigol, wedi'i ddarparu gan yr OECD a'r *International Finance Corporation*, i alluogi cynnal asesiadau mwy effeithiol o sut y mae cwmnïau rhyngwladol yn prisio trosglwyddiadau a £200,000 i sefydlu rhaglen "*Tax Inspectors without Borders*" yr OECD, sy'n lleoli archwilwyr trethi yn y maes i weithio law yn llaw â'u cydweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i archwilio achosion cymhleth.

Diolch am fynd i'r drafferth i dynnu'n sylw at y pryderon hyn

Yr eiddoch yn gywir,

E Fatkoja
Correspondence and Information Rights Team
Trysorlys EM

Trysorlys ei Mawrhydi

Correspondence & Enquiry Unit
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ
Public.enquiries@hmtreasury.gsi.gov.uk

Y Cynghorydd Dewi Owen
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Ebrill 2015
Ein cyfeirnod: T02015/00059
Eich cyfeirnod: ER

Annwyl Cynghorydd Owen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Rhagfyr ynglŷn ag osgoi trethi, a basiwyd gan y Prif Weinidog i'r Trysorlys. Gan nad yw'n ymarferol i Weinidogion ymateb i'r holl lythyrau a dderbyniant, gofynnwyd i mi ymateb ar eu rhan.

Hoffwn ymddiheuro am yr oedi wrth aros am ymateb i'ch llythyr.

Gadewch i mi eich sicrhau bod y Llywodraeth yn ystyried osgoi trethi yn fater hynod ddifrifol. Rydym eisiau system drethi gystadleuol gyda rheolau syml a theg i sicrhau bod pob trethdalwr yn talu ei ran.

Mae system drethi'r DG yn gweithio ar sail egwyddorion sydd wedi'u cytuno'n rhyngwladol, ac sy'n penderfynu faint o elw ddylai pob gwlad ei drethu. Datblygwyd y rheolau treth rhyngwladol hyn gyntaf yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf ac mae angen eu diweddaru.

Mae'r DG yn arwain y blaen ar weithredu'n amlochrog trwy'r G20 a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i ddiwygio'r safonau treth rhyngwladol er mwyn atal cwmnïau rhyngwladol rhag symud eu helw. Mae'n hanfodol ystyried y materion hyn mewn modd cynhwysfawr a chydlynol i ganfod datrysiadau effeithiol. Mae Cynllun Gweithredu BEPS (*Base Erosion and Profit Shifting*) yr OECD, a dderbyniodd gefnogaeth lawn gan Arweinwyr y G20 yn eu huwchgynhadledd yn St Petersburg yn 2013, yn amlinellu rhaglen waith fanwl sy'n cynnwys 15 eitem benodol wedi'u gwasgaru dros gyfnod o ddwy flynedd.

Yn ôl y disgwyl, cytunwyd ar ddeilliannau cyntaf y prosiect erbyn mis Medi 2014, yn cynnwys y gwaith ar dempled adrodd safonol a'r cyfuniad o drefniadau anghyson.

Mae'r DG yn gweithio gyda'r G20, yr OECD a gwledydd eraill i fynd ar drywydd hyn gyda swyddogion o Drysorlys EM a HMRC yn rhan o holl weithgorau OECD a'r Tasglu Economi Digidol (*Digital Economy Taskforce*) a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r Cynllun Gweithredu BEPS ar gael ar y we yn: www.oecd.org/ctp/BEPSActionPlan.pdf.

I ddangos ein hymrwymiad i'r prosiect hwn, mae'r DG, ar y cyd â'r Almaen a Ffrainc, wedi cyfrannu €550,000 yr un i'r OECD i sicrhau cynnydd parhaus. Mae'r DG wedi defnyddio ei rôl fel Llywydd y G8 i feithrin cefnogaeth ryngwladol i'r gwaith hwn ac i sicrhau yr ystyrir anghenion gwledydd sy'n datblygu. Yn uwchgynhadledd y G8 yn Lough Erne ym mis Mehefin, rhoddodd yr arweinwyr

gwleidyddol gefnogaeth frwd i waith yr OECD ar BEPS gan ddatgan eu hymrwymiad i weithredu i roi sylw i'r materion hyn, boed hynny'n unigol neu gyda'i gilydd.

Mae'r Llywodraeth hon wedi bod yn ddidostur yn ei hymdrechion i wasgu ar osgoi trethi ac mae wedi rhoi amrediad o gamau ar waith i atal osgoi trethi o'r cychwyn cyntaf, ac i ganfod y weithred a'i gwrthsefyll yn effeithiol os yw'r rhai sy'n gyfrifol yn dal ati. Yn sgil buddsoddiad o £1 biliwn gan y Llywodraeth i daclo osgoi trethi, efadu trethi a diffyg cydymffurfio â threthi, mae'r HRMC wedi sicrhau mwy na £85 biliwn mewn incwm cydymffurfiaeth ers dechrau'r Senedd hon. Fel rhan o hyn, ers mis Ebrill 2010 mae HRMC wedi sicrhau oddeutu £31 biliwn gan fusnesau mawr.

Fel y pwysleisiwyd yn ystod ein cyfnod yn Llywyddu'r G8 rydym eisiau i wledydd sy'n datblygu elwa o gael mwy o dryloywder gan wella eu gallu i ddefnyddio adnoddau domestig. Mae'r G20 wedi ategu'r ymrwymiad hwn gan ofyn i'r Gweithgor Datblygu (*Development Working Group*) lunio Adroddiad sy'n nodi'r prif ffynonellau sy'n gyfrifol am BEPS mewn gwledydd sy'n datblygu, yn ogystal â sut all y G20 helpu'r gwledydd hyn i ymdrin â hwy. Mae'r DG yn gweithredu fel un o gyd-hwyluswyr ffrwd gwaith y Gweithgor ar gyfer Symud Adnoddau Domestig (*Domestic Resource Mobilization*) ac mae'n ymwneud llawer â'r gwaith hwn.

Y ffordd fwyaf effeithiol i helpu gwledydd sy'n datblygu gasglu'r dreth sy'n ddyledus iddynt yw drwy ddarparu cefnogaeth dechnegol i'w gweinyddwyr trethi i'w helpu i gynnal systemau trethiant domestig cynaliadwy. Mae Uned Adeiladu Capasiti (*Capacity Building Unit*) yr HMRC yn gweithio mewn partneriaeth â gwledydd sy'n datblygu i ddarparu cefnogaeth a chymorth iddynt yn yr hirdymor, gan gynnwys rhoi arbenigwyr trethu profiadol yr HRMC i weithio gyda hwy. Mae hyn yn ychwanegol i'r swm o oddeutu £20 miliwn y flwyddyn y mae'r Adran Ddatblygu Rhyngwladol yn ei wario ar adeiladu capasiti trethi trwy ei raglenni yn y gwahanol wledydd.

Mae'r DG hefyd yn ariannu prosiectau capasiti trethi ac yn gweithio gyda sefydliadau rhyngwladol megis yr *African Tax Administration Forum*, Banc y Byd a'r OECD. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddatblygiad Rhyngwladol fod £6 miliwn ar gael i gefnogi prosiectau a gyflawnir gan Sefydliadau Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys £3 miliwn ar gyfer cyngor arbenigol, wedi'i ddarparu gan yr OECD a'r *International Finance Corporation*, i alluogi cynnal asesiadau mwy effeithiol o sut y mae cwmnïau rhyngwladol yn prisio trosglwyddiadau a £200,000 i sefydlu rhaglen "*Tax Inspectors without Borders*" yr OECD, sy'n lleoli archwilwyr trethi yn y maes i weithio law yn llaw â'u cydweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu i archwilio achosion cymhleth.

Diolch am fynd i'r drafferth i dynnu'n sylw at y pryderon hyn

Yr eiddoch yn gywir,

E Fatkoja
Correspondence and Information Rights Team
Trysorlys EM

Mai 2015

Annwyl Gynghorydd Owen

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 27 March a gyfeiriwyd at y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch yr ymgyrch i ailadeiladu’r cyswllt rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth. Ymddiheuraf am yr oedi wrth ymateb a hynny oherwydd camgymeriad gweinyddol.

Nodir y gefnogaeth i’r cynnig hwn. Nid yw mater isadeiledd rheilffyrdd wedi’i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a darperir arian ar gyfer isadeiledd rheilffyrdd newydd gan Lywodraeth y DU. Wedi dweud hynny, mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae wrth gyfarwyddo blaenoriaethau Network Rail yng Nghymru ac fe adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau rydym yn eu gosod i Network Rail sy’n cyfarwyddo datblygiad Astudiaeth Llwybrau Cymru. Rydym yn parhau’n ymrwymedig i weithio gyda Network Rail ac eraill i ymchwilio i’r cyfleoedd sydd ar gael.

Gareth Morgan
Dirprwy Gyfarwyddwr, Trafnidiaeth Gyhoeddus Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth